

Memorandwm Esboniadol ar gyfer:

- **Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026**
- **Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026**

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Adran Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynnyddoedd Cynnar ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026 a Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026 a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rwyf wedi fy modloni bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Sarah Murphy AS

Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant

16 Rhagfyr 2025

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn darparu gwybodaeth sy'n cwmpasu dau ddarn cysylltiedig o is-ddeddfwriaeth sy'n cael eu gwneud o dan y pwerau yn Neddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 ("Deddf 2018").
- 1.2 Mae Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026 ("y Rheoliadau Parhau") yn parhau â darpariaethau'r isafbris uned yng Nghymru y tu hwnt i ddyddiad y cymal machlud yn Neddf 2018, a fyddai fel arall yn eu diddymu ar 1 Mawrth 2026. Er mwyn cynnal polisi'r isafbris uned yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru wneud rheoliadau i sicrhau bod y darpariaethau yn parhau i fod mewn grym y tu hwnt i'r dyddiad hwnnw.
- 1.3 Mae Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026 ("y Rheoliadau Diwygio") yn cynyddu'r isafbris uned am alcohol yng Nghymru o 50c i 65c yr uned er mwyn cynnal effeithiolrwydd y polisi ers ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Mae adran 22(1) o Ddeddf 2018 yn darparu bod darpariaethau'r isafbris wedi'u diddymu gydag effaith ar ôl i'r cyfnod 6 blynedd ddod i ben (sydd wedi'i gyfrifo fel 1 Mawrth 2026), oni bai y gwneir rheoliadau sy'n darparu fel arall i atal eu diddymu. Mae rheoliad 3 o'r Rheoliadau Parhau yn gwneud darpariaeth i atal diddymu darpariaethau'r isafbris o dan adran 22(1) o Ddeddf 2018 sy'n caniatáu i ddarpariaethau'r isafbris barhau i fod mewn grym. Er nad yw'r Rheoliadau Parhau yn diwygio testun y Ddeddf, maent yn diystyru effaith gyfreithiol adran 22(1) a gall hyn fod o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor.
- 2.2 Mae cysylltiad mor agos rhwng y Rheoliadau Diwygio a'r Rheoliadau Parhau fel na fyddai'n bosibl dehongli effeithiau rheoleiddiol y naill offeryn statudol na'r llall ar wahân heb esbonio'r cyd-destun deddfwriaethol ehangach. Ar y sail honno, mae Memorandwm Esboniadol cyfansawdd wedi'i lunio ar gyfer y ddau offeryn statudol hyn.
- 2.3 Mae'r offeryn hwn wedi'i lunio heb ddefnyddio'r feddalwedd newydd ar gyfer offerynnau statudol Cymreig. Mae'n bosibl felly y bydd angen gwneud mân welliannau i'r fformadu yn ystod y broses gofrestru os caiff y ddeddfwriaeth hon ei chymeradwyo gan y Senedd a'i gwneud gan Weinidogion Cymru.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir yr offerynnau statudol Cymreig hyn o dan y weithdrefn gadarnhaol ddrafft.

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

- 3.1 Mae adran 22(1) o Ddeddf 2018 yn darparu bod darpariaethau'r isafbris i'w diddymu ar ddiwedd y cyfnod 6 blynedd ar ôl i adran 2 o Ddeddf 2018 ddod i rym, oni bai y gwneir Rheoliadau o dan adran 22(2) i barhau ag effaith y darpariaethau hynny. Dim ond ar ôl diwedd y cyfnod 5 mlynedd y gellir gwneud rheoliadau o dan adran 22(2) ond rhaid iddynt gael eu gwneud cyn diwedd y cyfnod 6 blynedd. Daeth adran 2 o Ddeddf 2018 i rym ar 2 Mawrth 2020 ac felly gellir gwneud rheoliadau ar ôl 1 Mawrth 2025 ond rhaid iddynt gael eu gwneud cyn 1 Mawrth 2026. Os na wneir y rheoliadau cyn 1 Mawrth 2026, yna bydd darpariaethau'r isafbris yn cael eu diddymu.
- 3.3 Gwneir y Rheoliadau Parhau hyn o dan adran 22(2) o Ddeddf 2018 ac maent yn sicrhau nad yw darpariaethau'r isafbris yn cael eu diddymu ar ddiwedd y cyfnod chwe blynedd a bennir yn adran 22(1).

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026

- 3.4 Mae adran 1 o Ddeddf 2018 yn nodi'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol. Y fformiwla yw:
- I x CR x CY**, lle mai—
- **I** yw'r isafbris uned a bennir mewn rheoliadau, wedi'i fynegi mewn punnoedd sterling;
 - **CR** yw cryfder canrannol yr alcohol, wedi'i fynegi fel rhif cyfan;
 - **CY** yw cyfaint yr alcohol, wedi'i fynegi mewn litrau.

Mae hyn yn golygu bod isafbris gwerthu alcohol yn cael ei gyfrifo drwy luosi'r isafbris uned a nodir gan Weinidogion Cymru mewn rheoliadau â chryfder a chyfaint y cynnyrch.

- 3.5 Mae Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") yn pennu'r isafbris uned at ddibenion Deddf 2018. Mae'r Rheoliadau Diwygio hyn yn diwygio Rheoliadau 2019 i ragnodi isafbris uned newydd o 65c yr uned.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Y cefndir

- 4.1 Roedd Deddf 2018 yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau i ysbytai y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, drwy leihau faint o alcohol a gaiff ei yfed gan yfwyr peryglus a niweidiol.
- 4.2 Sefydlwyd yr isafbris uned penodol, sef 50c fesul uned o alcohol, yn ddiweddarach drwy Rheoliadau 2019, a ddaeth i rym ar 2 Mawrth 2020. Gyda'i gilydd, mae'r

Ddeddf a Rheoliadau 2019 yn pennu'r isafbris ar gyfer cyflenwi alcohol i berson yng Nghymru.

- 4.3 Os na wneir rheoliadau i barhau â darpariaeth yr isafbris cyn 1 Mawrth 2026, bydd Deddf 2018 (gydag eithriadau cyfyngedig ar gyfer pwerau gwneud rheoliadau canlyniadol) yn cael ei diddymu. O ganlyniad, byddai Rheoliadau 2019, sydd ar hyn o bryd yn gosod isafbris uned o 50c, yn peidio â bod yn gymwys, a byddai'r pŵer i wneud rheoliadau yn y dyfodol o dan y Ddeddf yn dod i ben. Byddai unrhyw ymgais i adfer fframwaith yr isafbris uned yn y dyfodol wedyn yn gofyn am ddeddfwriaeth sylfaenol.

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026

- 4.4 Gwneir y Rheoliadau Parhau o dan adran 22(2) o Ddeddf 2018 a'u diben yw parhau ag effaith darpariaeth yr isafbris uned y tu hwnt i 1 Mawrth 2026. Mae tystiolaeth yn dangos bod cyflwyno isafbris uned am alcohol wedi gwneud cyfraniad pwysig o ran mynd i'r afael â'r risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â goryfed alcohol.
- 4.5 Effaith arfaethedig y Rheoliadau Parhau yw cadw isafbris am alcohol fel un o ystod eang o bolisiau iechyd a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru i helpu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a gwella canlyniadau iechyd. Nid yw wedi'i gynllunio i weithio ar ei ben ei hun, a byddwn yn parhau i gefnogi ein gwaith eang yn y maes camddefnyddio sylweddau, gan ganolbwyntio ar atal, cefnogaeth ac adferiad, a mynd i'r afael ag argaeledd.

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026

- 4.6 Mae'r Rheoliadau Diwygio yn diwygio Rheoliadau 2019 i gynyddu'r isafbris uned o 50c yr uned i 65c yr uned. Bwriad y newid hwn yw cynnal effeithiolrwydd y polisi yn unol â chwyddiant a thystiolaeth wedi'i diweddarau ar effeithiau iechyd. Mae'r cynnydd yn cefnogi'r nod parhaus o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ymhlith yfwrwr peryglus a niweidiol, gan gynnwys pobl ifanc, sy'n fwy tebygol o yfed symiau mawr o gynhyrchion rhad, cryfder uchel.

5. Ymgynghori

Ymgynghoriad Cyhoeddus ar Gynigion ar gyfer y Rheoliadau

- 5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer y rheoliadau dros gyfnod o wyth wythnos rhwng 4 Awst 2025 a 29 Medi 2025. Gofynnodd yr ymgynghoriad hwn am sylwadau ar ddau gynnig, sef: (i) a ddylai isafbris uned barhau y tu hwnt i fis Mawrth 2026, ac, os felly, (ii) a ddylai'r isafbris uned gynyddu o 50c i 65c yr uned. Roedd y penderfyniad i gynnal ymgynghoriad wyth wythnos byrrach yn adlewyrchu'r gwaith helaeth a wnaed eisoes i gasglu tystiolaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid.

- 5.2 Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys tri chwestiwn ar wahanol feysydd thematig. Gofynnodd un o'r rhain i'r ymatebwyr roi eu barn ar effaith debygol parhau â'r isafbris uned a chynyddu'r pris fesul uned i 65c, yn enwedig ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.
- 5.3 Ategwyd y ddogfen ymgynghori gan waith modelu a wnaed gan y Sheffield Addictions Research Group (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield, a ddarparodd dystiolaeth wedi'i diweddarau i Gymru ar effeithiau tebygol parhau â deddfwriaeth yr isafbris uned y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth bresennol. Mae'r ymchwil yn adeiladu ar waith modelu blaenorol ar gyfer Cymru a gwaith diweddar yn yr Alban i asesu effaith gwahanol opsiynau ynglŷn â'r isafbris uned presennol o 50c ar y boblogaeth, gan gynnwys lleihau a chynyddu'r pris, gan ddefnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael.
- 5.4 Cafwyd 433 o ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion, cymdeithasau diwydiant a masnach, cyrff iechyd, sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector, yn ogystal â sefydliadau academiaidd ac ymchwil.
- 5.5 Roedd yr ymatebion yn gymysg, gyda phryderon ynghylch fforddiadwyedd, effeithiau ar grwpiau agored i niwed, a chanfyddiadau o effeithiau negyddol ar aelwydydd incwm isel, anghydraddoldeb trawsffiniol, a "threth lechwraidd" — materion yr ymdrinnir â nhw mewn gwerthusiadau annibynnol ac adroddiad gweithrediad ac effaith. Er gwaethaf y pryderon hyn, cefnogodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys cyrff iechyd cyhoeddus ac academyddion, isafbris uned fel mesur effeithiol i leihau yfed niweidiol, derbyniadau i ysbytai, a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith poblogaethau agored i niwed. Mae'r polisi wedi llwyddo i ddileu cynhyrchion rhad, cryfder uchel o'r farchnad ac mae'n cyd-fynd â nodau Cymru o ran tegwch iechyd ac atal, fel cenedl Marmot a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae tystiolaeth o Gymru a'r Alban yn cefnogi galwadau i barhau â'r isafbris uned a'i godi i 65c yr uned, sy'n cael ei ystyried yn hanfodol i gynnal ei effeithiolrwydd yn erbyn chwyddiant.
- 5.6 Mae'r dogfennau ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yma: <https://www.llyw.cymru/consultation-setting-minimum-price-alcohol-beyond-2026.html>

Cefndir y gwaith ymgysylltu

- 5.7 Mae adran 21 o Ddeddf 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru osod adroddiad ar ei gweithrediad a'i heffaith cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd 5 mlynedd gyntaf ei gweithredu (ar ôl 1 Mawrth 2025). Wrth lunio'r adroddiad hwn, roedd rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd ac unrhyw bersonau eraill a oedd yn briodol yn eu barn nhw.
- 5.8 Wrth lunio'r adroddiad Gweithrediad ac Effaith, cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos â rhanddeiliaid rhwng 30 Ionawr a 24 Ebrill 2025. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, ar gais y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar isafbris uned, a gaeodd ar 30 Ebrill. Cyflwynwyd y dystiolaeth a gasglwyd i Lywodraeth Cymru ar

30 Mehefin. Cafodd y gwaith hwn ei lywio gan yr un gwaith modelu wedi'i ddiweddarau a gynhaliwyd gan SARG ym Mhrifysgol Sheffield, a oedd yn sail i'r ymgysylltiad â rhanddeiliaid a'r dadansoddiad dilynol yn yr adroddiad Gweithrediad ac Effaith.

5.9 Gosodwyd yr Adroddiad Gweithrediad ac Effaith ar 10 Gorffennaf 2025. Gellir gweld yr adroddiad a galwad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am dystiolaeth ysgrifenedig ar-lein: [Adroddiad gweithrediad ac effaith](#) a [Galwad am dystiolaeth gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar isafbris uned am alcohol yng Nghymru](#).

ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

1. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn ystyried effaith Isafbris Uned am alcohol. Yn benodol, mae'n ystyried parhad MUP y tu hwnt i ddyddiad y cymal machlud, y Cymal Machlud, parhad a chynnydd mewn pris.

2. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y rheoliadau canlynol:

Rheoliadau Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 (Parhau) 2026; a

Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) (Diwygio) 2026

yn ystyried opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcan a fynegwyd gan Lywodraeth Cymru o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy leihau lefelau'r defnydd o alcohol, yn enwedig ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol.

3. Pasiwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin 2018 ac fe gafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018.
4. Darparodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 y fframwaith cyfreithiol ar gyfer cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru. Sefydlwyd yr isafbris uned, sef 50c fesul uned o alcohol, yn ddiweddarach drwy Reoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 (Rheoliadau 2019), a ddaeth i rym ar 2 Mawrth 2020.
5. Gyda'i gilydd, mae'r Ddeddf a Rheoliadau 2019 yn pennu'r isafbris ar gyfer cyflenwi alcohol i berson yng Nghymru ac maent yn sefydlu cyfundrefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys pwerau i erlyn, cynnal ymchwiliadau, a mynd i mewn i fangreoedd. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i gwneud hi'n drosedd i berson sy'n fanwerthwr alcohol gyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, neu awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru, am bris sy'n is na'r isafbris cymwys am yr alcohol, a'r gosb am hyn yw dirwy.
6. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod ers tro effaith prisio alcohol ar iechyd y cyhoedd a chanlyniadau cymdeithasol. Ers i Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 gael ei chyflwyno, mae isafbris uned o 50c yr uned wedi bodoli i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Er hynny, mae'r gwerthusiadau diweddar yn awgrymu y gallai fod angen cynnydd yn y MUP i gynnal effeithiolrwydd y polisi a lliniaru ymhellach defnydd gormodol o alcohol ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol.

Gwerthusiadau Annibynnol o'r Isafbris Uned am Alcohol

7. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o Ddeddf 2018. Dyfarnwyd pedwar contract, yn edrych ar agweddau gwahanol ar ei rhoi ar waith. Y rhain oedd:

Astudiaeth 1: Adolygiad o gyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru – Dadansoddiad o Gyfraniad. Gan ddefnyddio dull Dadansoddi Cyfraniad, y nod oedd asesu'r cyfraniad (os oes un) y mae cyflwyno isafbris am alcohol yng Nghymru wedi'i wneud at unrhyw ganlyniadau (mesuradwy a gweladwy) ymddygiadol, yfed a manwerthu sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Astudiaeth 2: Ymchwil gyda manwerthwyr a dadansoddi meintiol. Gan ddefnyddio dulliau cymysg, ymchwiliodd y gwerthusiad i brofiadau manwerthwyr ac effeithiau isafbris am alcohol yng Nghymru. Mae'r ymchwil yn ymchwilio hefyd i'r effaith ar brynu alcohol gan ddefnyddio dadansoddiad data eilaidd.

Astudiaeth 3: Ymchwil gyda gwasanaethau a defnyddwyr gwasanaethau i asesu profiadau ac effaith isafbris am alcohol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a darparwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn cynnwys archwilio i ba raddau y gallai newid rhwng sylweddau fod wedi deillio o'r ddeddfwriaeth, ac effeithiau isafbris ar gyllidebau aelwydydd.

Astudiaeth 4: Asesiad o effaith cyflwyno isafbris am alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwr. Astudiaeth hydredol sy'n asesu effaith isafbris am alcohol ar y boblogaeth ehangach o yfwr yng Nghymru gan ddefnyddio arolwg holiadur ar-lein, trawstoriadol a dienw o yfwr sy'n oedolion ac sy'n byw yng Nghymru; a chyweliadau ansoddol gydag yfwr sy'n oedolion sy'n byw yng Nghymru.

8. Mae'r adroddiadau gwerthuso terfynol o bob un o'r astudiaethau hyn ar gael yng [ngwerthusiadau Llywodraeth Cymru](#). Cydnabu canfyddiadau'r gwerthusiad fod asesu effaith y ddeddfwriaeth yng nghyd-destun y pandemig, lefelau chwyddiant sy'n gyson uchel a'r argyfwng costau byw wedi bod yn heriol. Er hynny, canfu'r astudiaethau fod y ddeddfwriaeth wedi'i chroesawu'n eang a'i rhoi ar waith yn effeithiol.

Adroddiad ar Weithrediad ac Effaith

9. O dan delerau'r Ddeddf, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru ddarparu adroddiad ar Weithrediad ac Effaith y ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Mawrth 2025. Wrth baratoi'r adroddiad hwn, bu rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â'r Senedd, ac eraill, fel y bo'n briodol. Llywiodd canfyddiadau'r gwerthusiadau annibynnol yr adroddiad, ond cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymarfer ymgynghori hefyd a gwaith amrywiol arall i lywio'r adroddiad hwn. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos â rhanddeiliaid rhwng 30 Ionawr a 24 Ebrill 2025. Ar yr un pryd, cyhoeddodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd, ar gais y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, alwad am dystiolaeth ysgrifenedig ar [Isafbris uned am alcohol yng Nghymru](#), a ddaeth i ben ar 30 Ebrill. Cyflwynwyd y dystiolaeth a gasglwyd i Lywodraeth Cymru ar 30 Mehefin. Mae copi o'r adroddiad ar gael yn [Adroddiad Gweithrediad ac Effaith Llywodraeth Cymru](#).

Yr opsiynau

10. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yn canolbwyntio ar effeithiau parhau â MUP ar lefelau gwahanol o isafbris uned – ac mae'n cynnwys tri opsiwn ar y mater hwn, sef:

Opsiwn 1 - Gostwng neu ddileu'r isafbris uned i lai na 50c yr uned.

Opsiwn 2 - Cadw'r swm o 50c yr uned.

Opsiwn 3 - Cynyddu'r swm i fwy na 50c yr uned ond heb fod yn fwy na 60c yr uned.

Opsiwn 4 - Cynyddu'r swm i 65c yr uned.

Opsiwn 5 - Mwy na 65c yr uned

11. Ym mis Gorffennaf 2024, comisiynodd Llywodraeth Cymru y Sheffield Addictions Research Group (SARG) ym Mhrifysgol Sheffield i asesu effeithiau tebygol parhau â'r ddeddfwriaeth Isafbris am Alcohol y tu hwnt i'r cyfnod a gwmpesir gan y ddeddfwriaeth bresennol. Adeiladodd yr ymchwiler ar [waith modelu sy'n bodoli eisoes i Gymru](#) a [gwaith mwy diweddar yn yr Alban](#), i asesu effaith ystod o opsiynau amgen ynglŷn â'r isafbris bresennol o 50c yr uned ar y boblogaeth, gan ymgorffori'r data newydd. Yn benodol, comisiynwyd SARG i wneud y canlynol:

- Modelu effaith newid y trothwy presennol o 50c yr uned, gan ystyried ystod o ddewisiadau amgen, gan gynnwys lleihau'r trothwy MUP, cynyddu'r trothwy MUP, cadw'r trothwy o 50c, a chael gwared ar MUP yn llwyr.
- Canfod pa godiadau mewn toll gartref (trethiant) y byddai eu hangen i gyflawni'r un effaith wrth leihau marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol, gan gynnwys dadansoddiadau penodol ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol, ar gyfer yr ystod o drothwyon MUP a ddefnyddir wrth ymateb i'r amcan uchod.
- Amcangyfrif effaith dulliau posibl o uwchraddio (neu beidio) trothwyon MUP.

12. Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol a'r crynodeb gweithredol ar 24 Gorffennaf 2025 ac maent wedi llywio'r asesiad effaith rheoleiddiol hwn - [Adroddiad Modelu Sheffield 2025](#)

13. Mae'r opsiynau hyn yn cael eu harchwilio yn fanwl isod ac maent yn seiliedig ar adroddiad Modelu Sheffield. Nodir manylion sut y cynhaliwyd y modelu isod:

14. Mae'r dadansoddiad hwn yn modelu effeithiau hirdymor addasu'r Isafbris i bob uned o Alcohol (MUP) yng Nghymru, gan ddefnyddio fframwaith efelychu sy'n rhychwantu rhwng 2022 a 2045. Y MUP presennol o 50c/uned, a gyflwynwyd yn 2020, yw'r senario sylfaenol. Mae 2026 wedi'i dynodi'n flwyddyn ymyrraeth o ran

cyflwyno polisïau MUP amgen, gan ganiatáu cymharu â'r waelodlin barhaus o 50c ("y rheolydd").

Senarios Polisi

Gostyngiadau mewn MUP i 40c a 45c
Cynnydd mewn MUP i 55c, 60c, 65c, 70c, 75c, ac 80c.
Dileu'r polisi MUP yn llwyr

15. Mae pob senario yn cael ei uwchraddio'n flynyddol gyda chwyddiant CPIH, tra bo'r rheolydd yn cynnal y MUP o 50c ac yn dilyn yr un mynegai chwyddiant. Mae'r holl ganlyniadau ariannol yn cael eu cyflwyno mewn prisiau real 2026. Defnyddir RPI gan Lywodraeth y DU fel sylfaen ar gyfer codi dyletswyddau alcohol a thybaco ac fe'i defnyddiwyd yn y dadansoddiad hwn ar gyfer sicrhau cysondeb.¹

Dull Modelu

16. Mae'r model yn cymhwyso MUP i ddosbarthiadau prisiau alcohol yr arsylwir arnynt tra'n cadw strwythur prisiau cyfeirio y mae'r drefn dreth bresennol yn dylanwadu arno. Mae'r dull dosbarthu deuol hwn yn hwyluso efelychu senarios sy'n cynnwys:

- Erydiad y MUP mewn termau real dros amser (ee, drwy chwyddiant)
- Newidiadau bwriadol yng ngwerth arian parod neu ddileu'r polisi yn llwyr
- Dychwelyd i batrymau prisiau cyn-MUP os tynnir y polisi yn ôl.

Methodolegau Allweddol

- Mae prisiau alcohol yn cael eu diweddarau'n flynyddol yn seiliedig ar bolisi treth a chwyddiant (RPI ar gyfer cysondeb modelu)
- Mae elastigeddau prisiau o ran y galw (o Pryce et al.) yn cael eu cymhwyso i amcangyfrif newidiadau mewn defnydd, gan gynnwys:
- Effeithiau cyfranogiad (a oes rhywun yn dewis yfed alcohol)
- Defnydd amodol (faint y mae defnyddiwr yn ei yfed)
- Cyflawnir cyfrifiadau ar wahân ar gyfer is-grwpiau yfwyr ac yn ôl cwintellau amddifadedd (MALIC)

Metrigau Gwerthuso

17. Mae senarios yn cael eu hasesu yn seiliedig ar newidiadau yn y canlynol:

- Lefelau yfed alcohol
- Gwariant defnyddwyr
- Refeniw treth y llywodraeth (ardoll + TAW)
- Refeniw manwerthwyr (mewnfasnach ac allfasnach)
- Canlyniadau iechyd: derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau o bob achos, a Blynnyddoedd o Fywyd a Gollwyd (YLLs)

- Costau i'r GIG yn ymwneud â derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Elastigeddau Prisiau

18. Un o'r paramedrau allweddol yn y modelu yw elastigedd prisiau o ran y galw, a gymerwyd o Pryce et al. (2023) <https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/dar.13773>. Mae'r modelu yn defnyddio amrywiaeth o amcangyfrifon i ddal ansicrwydd a dangos canlyniadau posibl yn hytrach na dibynnu ar ragfynegiad unigol. Daw'r amcangyfrif canolog o astudiaeth Sheffield oherwydd ei bod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn yn y DU a dulliau dilysedig. Mae'r elastigeddau hyn, a gyflwynir fel matrices 12×12 , yn dal ymatebolrwydd y defnydd ar gyfer 12 cynnyrch—10 yn alcohol a 2 yn dybaco—i newidiadau yn eu prisiau eu hunain a chroes-brisiau, gyda matricesau ar wahân ar gyfer cyfranogiad a defnydd amodol. Gan fod y dadansoddiad modelu yn canolbwyntio ar brisio alcohol, pennwyd yr holl elastigeddau tybaco yn sero, gan ddefnyddio matrices alcohol 10×10 i bob pwrpas. Yn yr achos sylfaenol, mae'r modelu hefyd yn dileu unrhyw elastigeddau nad oeddent yn arwyddocaol yn ystadegol yn astudiaeth Pryce, ac mae'r modelu yn profi sensitifrwydd y canlyniadau i amrywiadau yn elastigeddau'r achosion sylfaenol hyn.

Dadansoddiadau sensitifrwydd

19. Mae'r modelu yn cynnwys tri dadansoddiad sensitifrwydd i asesu sut y gallai mewnbynnau model amgen ddylanwadu ar y canlyniadau:

SA1: Mae'r modelu yn cymhwyso'r matrices llawn o elastigeddau prisiau cyfranogiad Pryce ac elastigeddau prisiau defnydd amodol, gan gynnwys y rhai sy'n ddibwys yn ystadegol.

SA2: Mae'r modelu yn defnyddio elastigeddau Pryce ond yn eu cyfyngu i elastigedd pris y nwydd ei hun, gan bennu'r holl drawselastigeddau pris rhwng cynhyrchion alcohol i sero.

SA3: Mae'r modelu yn ymgorffori'r elastigedd prisiau a amcangyfrifwyd gan CThEF ac a fabwysiadwyd gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn ei dadansoddiad economaidd.

20. Ar gyfer pob dadansoddiad sensitifrwydd, roedd y modelu yn tybio senario polisi darluniadol sy'n cynnwys cynnydd yn y trothwy MPA o 50c i 65c yr uned.

Gwaelodlin y modelu

21. Fel gwaelodlin ar gyfer yr asesiad effaith hwn, defnyddiodd yr adroddiad modelu 2.024,569 miliwn o yfwyr yng Nghymru, sy'n yfed 11.3 uned o alcohol yr wythnos

¹ Sylwch, er bod y trothwy MPA yn cael ei amcangyfrif i godi yn unol â CPIH, rydym yn rhagdybio y bydd prisiau alcohol yn cynyddu bob blwyddyn yn unol â RPI – er mwyn sicrhau cydnawsedd ag amcangyfrifon llywodraeth y DU ynghylch dyletswydd alcohol.


ar gyfartaledd ar gost o £15.37. Cymerir y data hwn o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2022/23 [Gwasanaeth Data y DU](#).

22. Gellir dadansoddi'r ffigurau hyn yn ôl statws yfwr, hynny yw Cymedrol, Peryglus a Niweidiol. Mae tua 77% o'r yfwyr yng Nghymru yn yfwyr cymedrol, sy'n golygu eu bod yn yfed o fewn canllawiau yfed risg isel Prif Swyddogion Meddygol y DU o 14 uned yr wythnos. Mae tua 19% o yfwyr yn yfwyr peryglus, sef dynion sy'n mynd dros y canllawiau, ond sy'n yfed llai na 50 uned yr wythnos a menywod sy'n yfed llai na 35 uned, tra bo ychydig dros 4% o yfwyr yn yfed ar lefelau niweidiol sy'n uwch na'r trothwyon hyn.

Defnydd sylfaenol o alcohol a gwariant yn ôl grŵp yfwr

	Poblogaeth	Cymedrol	Peryglus	Niweidiol
Nifer yr yfwyr	2,024,569	1,551,647	386,439	86,483
Cyfran yr holl yfwyr	100.0%	76.6%	19.09%	4.27%
Defnydd cymedrig (unedau/yfwr/wythnos)	11.25	4.46	24.99	71.70
Gwariant cymedrig ar alcohol (£/yfwr/wythnos)	£15.37	£7.62	£32.20	£77.68


23. Yng Nghymru, mae oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau a argymhellir yn cyfrif am 23.4% yn unig o'r holl yfwyr, ond maent yn yfed 69.6% o gyfanswm yr alcohol ac yn gyfrifol am 60.5% o'r holl wariant ar alcohol. Mae'r 4.3% uchaf o'r yfwyr trymaf yn cyfrif am 27.2% o'r alcohol a yfwyd a 21.7% o gyfanswm y gwariant ar alcohol ledled y wlad.




Tabl 1 - Dosbarthiad y boblogaeth, cyfanswm y defnydd o alcohol a chyfanswm y gwariant ar alcohol rhwng grwpiau yfwyr ar y waelodlin²

² Ffigur 1 Adroddiad Modelu Sheffield 2025, tudalen 30

24. Mae'r tabl yn tynnu sylw at sut y mae dewisiadau diod yn amrywio ar draws grwpiau yfwyr. Mae yfwyr trymach a pheryglus yn tueddu i yfed cyfran fwy o gwrw a seidr, a chyfran lai o wirodydd, o'i gymharu ag yfwyr cymedrol. Er hynny, mewn termau absoliwt, mae yfwyr trymach yn dal i yfed llawer mwy o wirodydd yn gyffredinol.



Tabl 2: Y defnydd o alcohol yn ôl math o ddiod a grŵp yfwyr³



Tabl 3: Y defnydd sylfaenol o alcohol yn ôl y sianel a'r grŵp o yfwyr⁴

³ Ffigur 3 Adroddiad Modelu Sheffield 2025, tudalen 31

⁴ Ffigur 5 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 34

25. Dangosir dadansoddiad o'r defnydd o alcohol yn ôl sianel (mewnfasnach ac allfasnach) a grŵp yfwyr yn Nhabl 3. Mae'r ffigurau hyn yn dangos gwahaniaeth enfawr o ran lle mae alcohol yn cael ei brynu rhwng grwpiau yfwyr, gydag yfwyr cymedrol yn rhannu eu defnydd o alcohol bron yn gyfartal rhwng mewnfasnach ac allfasnach, tra bo yfwyr niweidiol yn prynu un rhan o bump o'u halcohol yn unig yn y drefn fewnfasnach. Mae'r gwahaniaeth hwn yn hanfodol i effaith polisiau prisiau alcohol, gan fod alcohol allfasnach yn tueddu i fod yn sylweddol rhatach nag alcohol a brynir mewn tafarndai, bariau, clybiau nos a bwytai.
26. Cyflwynir canlyniadau'r gwahaniaethau hyn mewn dewisiadau prynu ac ymddygiadau ar gyfer y prisiau cyfartalog a delir rhwng gwahanol grwpiau o yfwyr yn Nhabl 2. Mae'r tablau hyn yn dangos graddiant prisiau clir dros grwpiau o yfwyr, gyda phobl sy'n yfed yn drymach yn yfed alcohol rhatach (£1.08 yr uned) nag yfwyr cymedrol (£1.71 yr uned). Mae hyn er gwaethaf effaith y MUP o 50c, nad yw wedi dileu'r gwahaniaeth mewn prisiau cyfartalog a delir rhwng yfwyr cymedrol, peryglus a niweidiol.

	Poblogaeth	Cymedrol	Peryglus	Niweidiol
Holl alcohol	£1.37	£1.71	£1.29	£1.08
Alcohol allfasnach	£0.81	£0.86	£0.81	£0.76
Alcohol mewnfasnach	£2.59	£2.85	£2.43	32.29
Cwrw	£1.22	£1.40	£1.20	£1.08
Seidr	£1.03	£1.15	£1.03	£0.91
Gwin	£1.25	£1.46	£1.21	£1.08
Gwirodydd	£1.79	£2.38	£1.63	£1.11
RTDs	£1.80	£2.00	£1.67	£1.64

Tabl 4: Prisiau cyfartalog sylfaenol a dalwyd am alcohol.⁵

27. Yng Nghymru, mae 5.6% o'r holl alcohol a werthir yn cael ei brisio o dan 60c yr uned. Mae pryniannau ar y pwynt pris hwn yn cyfrif am 4.4% yn unig o'r alcohol a yfir gan yfwyr cymedrol, o'i gymharu â 6.9% ymhlith yfwyr niweidiol. Yn ogystal, mae 18.5% o werthiannau alcohol yn digwydd islaw'r trothwyon o 70c ac 80c yr uned.
28. O ran effaith y defnydd hwn o alcohol ar iechyd y boblogaeth, mae'r tabl canlynol yn rhoi cyfanswm nifer amcangyfrifedig y marwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty a'r Blynnyddoedd o Fywyd a Gollir (YLLs) y gellir eu priodoli i alcohol yn 2026. Noder bod y ffigurau marwolaethau yma yn cynnwys marwolaethau o gyflyrau sy'n cael eu hachosi gan alcohol yn unig (a elwir yn farwolaethau 'alcohol-benodol') a hefyd gyflyrau lle mae alcohol yn un o nifer o ffactorau risg o bosibl,

⁵ Tabl 3 Adroddiad Modelu Sheffield, Tudalen 36

megis canser y fron neu anafiadau traffig ar y ffordd (marwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol).

29. Mae'r ffigurau hyn yn tynnu sylw at y baich sylweddol y mae alcohol yn ei roi ar y boblogaeth a'r gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru, gyda 699 o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol, 554 o farwolaethau sy'n alcohol-benodol, 11243 o dderbyniadau i'r ysbyty a 23550 o flynyddoedd o fywyd a gollir i farwolaeth gynamserol o ganlyniad i yfed alcohol. Mae'r ffigurau hyn ar gyfer 2022-23, sef y gwaelodlin a ddefnyddiwyd yn y modelu.

30. Pan gaiff ei ddadansoddi allan yn ôl grŵp yfwyr, mae'n dangos yr amcangyfrifir bod alcohol yn *lleihau* nifer y marwolaethau yn gyffredinol ymhlith yfwyr cymedrol. Fel y gellir disgwyl, mae niwed y gellir ei briodoli alcohol yn llawer mwy mewn grwpiau yfed trymach, yn enwedig pan fyddwn yn cyfrif am eu meintiau cymharol lai drwy gyfrifo cyfraddau i bob 100,000 o yfwyr.

	Poblogaeth	Cymedrol	Peryglus	Niweidiol
Marwolaethau blynyddol y gellir eu priodoli i alcohol	699	-76	442	333
Marwolaethau blynyddol y gellir eu priodoli i alcohol i bob 100,000 o yfwyr	35	-5	114	385
Marwolaethau blynyddol sy'n benodol i alcohol	554	45	333	175
Marwolaethau blynyddol sy'n benodol i alcohol i bob 100,000 o yfwyr	27	3	86	203
Derbyniadau blynyddol i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol	11,243	2,284	5,576	3,383
Derbyniadau blynyddol i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol i bob 100,000 o yfwyr	555	147	1,443	3,912
YLLs blynyddol i alcohol	23,550	408	13,248	9,894
YLLs blynyddol i alcohol i bob 100,000 o yfwyr	1,163	26	3,428	11,440

Tabl 5: Niwed iechyd sylfaenol y gellir ei briodoli i alcohol yn ôl grŵp yfwyr⁶

31. Mae'r manteision, risgiau, costau ac asesiadau effaith iechyd, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a chyfraddau marwolaethau, wedi'u nodi isod ac fe'u hasesir yn erbyn yr opsiynau canlynol:

⁶ Tabl 6 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 39

- Opsiwn 1 - Gostwng neu ddileu'r isafbris uned i lai na 50c yr uned.
- Opsiwn 2 - Cadw'r swm o 50c yr uned.
- Opsiwn 3 - Cynyddu'r swm i fwy na 50c yr uned ond heb fod yn fwy na 60c yr uned.
- Opsiwn 4 - Cynyddu'r swm i 65c yr uned.
- Opsiwn 5 - Mwy na 65c yr uned

Effaith ar yfed alcohol, poblogaeth yfwyr a gwariant

32. Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio'r model TAX-sim, sy'n caniatáu i newidiadau gael eu holrhain mewn ymddygiad yfed unigol dros amser, gan alluogi ailddosbarthu yfwyr yn seiliedig ar eu defnydd presennol. I'r gwrthwyneb, roedd adroddiadau blaenorol yn dibynnu ar y model SAPM, a oedd yn pennu categorïau yfed unigolion ar y waelodlin ac nad oedd yn cyfrif am newidiadau dros amser. Mae'r newid hwn yn golygu bod y dadansoddiad presennol yn adlewyrchu ymddygiad y byd go iawn yn fwy cywir drwy gasglu newidiadau yn lefelau yfed alcohol a maint esblygol pob grŵp o yfwyr. Ceir rhagor o wybodaeth am y model TAX-sim o'i gymharu â'r model SAPM blaenorol a ddefnyddiwyd gan y Grŵp SARG yn yr [adroddiad modelu](#).
33. Dangosir effeithiau amcangyfrifedig pob cymhariaeth o lefelau prisiau MUP yn erbyn y tablau isod (Tabl 6 a Thabl 7). Mae'r dadansoddiad hwn yn cymharu'r defnydd o alcohol yn 2026 o dan drothwy diwygiedig ar gyfer lisafris i bob uned o alcohol (MUP) gyda sefyllfa wrthffeithiol lle mae'r MUP yn aros yn ddigyfnewid yn 50c.
34. Yn ôl yr amcangyfrifon hyn mae dileu MUP yn gyfan gwbl neu ostwng trothwy MUP o 50c i 40c neu 45c yn cynyddu'r defnydd o alcohol o'i gymharu â chadw'r trothwy yn 50c. I'r gwrthwyneb, amcangyfrifir bod codi'r trothwy MUP i fwy na 50c yn lleihau'r defnydd o alcohol, gyda'r gostyngiadau mwyaf yn dod o'r rhai yn y grŵp mwyaf difreintiedig.

	Newid absoliwt	Newid cymharol
Poblogaeth yfwyr	2,024,568.98	
Defnydd cymedrig fesul yfwr bob wythnos	11.25	
Newid yn y defnydd wythnosol yn erbyn y rheolydd		
Dileu MUP	0.08	0.74%
MUP o 40c	0.03	0.30%
MUP o 45c	0.02	0.16%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00	0.00%
MUP o 55c	-0.07	-0.64%
MUP o 60c	-0.16	-1.39%
MUP o 65c	-0.30	-2.68%
MUP o 70c	-0.49	-4.40%
MUP o 75c	-0.72	-6.38%
MUP o 80c	-1.06	-9.42%

Tabl 6: Effeithiau wedi'u modelu ar yfed alcohol ym mlwyddyn 1 o'i gymharu â'r rheolydd.⁷

	C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)	C2 MALIC	C3 MALIC	C4 MALIC	C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)
Poblogaeth yfwyr	407,110	419,687	423,884	392,429	381,458
Defnydd cymedrig fesul yfwr bob wythnos	12.24	10.68	11.39	10.46	11.50
Newid absoliwt mewn defnydd yn erbyn y rheolydd					
Dileu MUP	0.05	0.05	0.08	0.09	0.14
MUP o 40c	0.02	0.02	0.03	0.04	0.06
MUP o 45c	0.01	0.01	0.02	0.02	0.03
MUP o 50c (rheolydd)	0.00	0.00	0.00	0.00	0.00
MUP o 55c	-0.05	-0.05	-0.07	-0.08	-0.12
MUP o 60c	-0.11	-0.11	-0.16	-0.17	-0.25
MUP o 65c	-0.22	-0.20	-0.31	-0.32	-0.46
MUP o 70c	-0.37	-0.35	-0.52	-0.53	-0.73
MUP o 75c	-0.56	-0.52	-0.75	-0.76	-1.03
MUP o 80c	-0.86	-0.81	-1.10	-1.10	-1.46
Newid cymharol mewn defnydd yn erbyn y rheolydd					
Dileu MUP	0.42%	0.49%	0.73%	0.87%	1.26%
MUP o 40c	0.18%	0.20%	0.29%	0.35%	0.51%
MUP o 45c	0.09%	0.11%	0.16%	0.19%	0.27%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%
MUP o 55c	-0.39%	-0.44%	-0.66%	-0.74%	-1.02%
MUP o 60c	-0.87%	-0.99%	-1.42%	-1.61%	-2.14%
MUP o 65c	-1.78%	-1.92%	-2.76%	-3.10%	-3.98%
MUP o 70c	-3.04%	-3.29%	-4.53%	-5.03%	-6.33%
MUP o 75c	-4.55%	-4.91%	-6.56%	-7.23%	-8.97%
MUP o 80c	-7.05%	-7.56%	-9.68%	-10.54%	-12.66%

Tabl 7: Effeithiau wedi'u modelu ar yfed alcohol yn ôl cwintel MALIC ym mlwyddyn 1 o'i gymharu â'r rheolydd.⁸

⁷ Tabl 8 Adroddiad Modelu Sheffield, Tudalen 44

⁸ Tabl 9 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 45

	Cymedrol	Peryglus	Niweidiol
Newid absoliwt yn nifer yr yfwyr yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	-1,420	461	959
MUP o 40c	-660	299	361
MUP o 45c	-374	162	212
MUP o 50c (rheolydd)	0	0	0
MUP o 55c	2,453	-1,283	-1,171
MUP o 60c	5,604	-2,926	-2,677
MUP o 65c	11,270	-6,363	-4,906
MUP o 70c	18,430	-10,385	-8,044
MUP o 75c	26,935	-15,802	-11,133
MUP o 80c	40,969	-25,515	-15,454
Newid cymharol yn nifer yr yfwyr yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	-0.09%	0.12%	1.11%
MUP o 40c	-0.04%	0.08%	0.42%
MUP o 45c	-0.02%	0.04%	0.24%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%
MUP o 55c	0.16%	-0.33%	-1.35%
MUP o 60c	0.36%	-0.76%	-3.10%
MUP o 65c	0.73%	-1.65%	-5.67%
MUP o 70c	1.19%	-2.69%	-9.30%
MUP o 75c	1.74%	-4.09%	-12.87%
MUP o 80c	2.64%	-6.60%	-17.87%

Tabl 8: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MUP ar nifer yr yfwyr ym mhob grŵp.⁹

35. Mae'r data a gyflwynir yn y tabl uchod yn dangos y newidiadau dosbarthiadol mewn ymddygiad yfed ar draws grwpiau poblogaeth mewn ymateb i newidiadau yn yr isafbris i bob uned o alcohol (MUP). Yn ôl y disgwyl mae cynyddu'r MUP yn arwain at fwy o ostyngiadau mewn yfed peryglus a niweidiol, ynghyd â chynnydd mewn defnydd cymedrol. Er enghraifft, rhagwelir y bydd codi'r MUP i 65c yn lleihau 6,363 ar nifer yr yfwyr peryglus a 4,906 ar yfwyr niweidiol, tra bydd cynnydd o 11,270 ymhlith yfwyr cymedrol. I'r gwrthwyneb, disgwylir i ostwng y trothwy MUP i 40c neu 45c—neu ei ddileu yn llwyr—wrthdroi'r duedd hon, gan ysgogi cyfran o unigolion i symud o gymedrol i beryglus, ac o lefelau yfed peryglus i niweidiol. Yn benodol, amcangyfrifir y bydd cael gwared ar MUP yn llwyr yn 2026 yn arwain at gynnydd o 461 o yfwyr peryglus a 959 o yfwyr niweidiol, ochr yn ochr â gostyngiad o 1,420 o yfwyr cymedrol.

36. Dangosir i ba raddau y mae newidiadau mewn prisiau a'r newidiadau mewn defnydd sy'n deillio o hynny yn cyfuno i gynhyrchu newidiadau yng ngwariant defnyddwyr cyffredinol yn Nhabl 9, ac yn ôl cwintel MALIC yn Nhabl 10. Ar draws

⁹ Tabl 10 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 48

yr holl yfwyr, amcangyfrifir bod lleihau neu ddileu'r trothwy MUP yn cynyddu gwariant; tra mae ei godi yn lleihau gwariant.

	Newid absoliwt	Newid cymharol
Poblogaeth yfwyr	2,024,569	
Gwariant cymedrig fesul yfwr bob wythnos (rheolydd)	£15.37	
Newid mewn gwariant wythnosol yn erbyn y rheolydd		
Dileu MUP	£0.05	0.16%
MUP o 40c	£0.02	0.05%
MUP o 45c	£0.01	0.02%
MUP o 50c (rheolydd)	£0.00	0.00%
MUP o 55c	-£0.04	-0.12%
MUP o 60c	-£0.09	-0.27%
MUP o 65c	-£0.13	-0.40%
MUP o 70c	-£0.20	-0.61%
MUP o 75c	-£0.30	-0.93%
MUP o 80c	-£0.49	-1.52%

Tabl 9: Effeithiau wedi'u modelu ar wariant defnyddwyr ym mlwyddyn 1 o'i gymharu â'r rheolydd.¹⁰

¹⁰ Tabl 11 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 51

	C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)	C2 MALIC	C3 MALIC	C4 MALIC	C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)
Poblogaeth yfwyr	407,110	419,687	423,884	392,429	381,458
Gwariant cymedrig fesul yfwyr bob wythnos	£16.89	£15.04	£15.36	£14.45	£15.06
Newid absoliwt mewn gwariant yn erbyn y rheolydd					
Dileu MUP	£0.04	£0.04	£0.04	£0.06	£0.08
MUP o 40c	£0.01	£0.01	£0.01	£0.02	£0.03
MUP o 45c	£0.00	£0.00	£0.00	£0.01	£0.01
MUP o 50c (rheolydd)	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00	£0.00
MUP o 55c	-£0.02	-£0.03	-£0.03	-£0.05	-£0.07
MUP o 60c	-£0.06	-£0.07	-£0.07	-£0.10	-£0.14
MUP o 65c	-£0.06	-£0.09	-£0.12	-£0.17	-£0.23
MUP o 70c	-£0.08	-£0.12	-£0.19	-£0.25	-£0.36
MUP o 75c	-£0.12	-£0.18	-£0.31	-£0.37	-£0.55
MUP o 80c	-£0.23	-£0.30	-£0.52	-£0.61	-£0.85
Newid cymharol mewn gwariant yn erbyn y rheolydd					
Dileu MUP	0.12%	0.13%	0.14%	0.18%	0.24%
MUP o 40c	0.04%	0.04%	0.04%	0.06%	0.09%
MUP o 45c	0.01%	0.01%	0.01%	0.02%	0.03%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%	0.00%
MUP o 55c	-0.07%	-0.10%	-0.11%	-0.15%	-0.22%
MUP o 60c	-0.16%	-0.21%	-0.23%	-0.34%	-0.45%
MUP o 65c	-0.17%	-0.27%	-0.38%	-0.54%	-0.73%
MUP o 70c	-0.21%	-0.38%	-0.61%	-0.82%	-1.14%
MUP o 75c	-0.33%	-0.57%	-0.97%	-1.21%	-1.72%
MUP o 80c	-0.63%	-0.95%	-1.60%	-1.96%	-2.68%

Tabl 10: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid trothwy'r isafbris uned mewn gwariant defnyddwyr ar alcohol yn ôl cwintel MALIC.¹¹

Effeithiau ar refeniw treth a manwerthwyr.

37. Adroddir ar yr effeithiau a ragwelir ar refeniw treth a manwerthu fel cyfansymiau cronus dros y cyfnod o bum mlynedd rhwng 2026 a 2030.

¹¹ Tabl 12 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 53

38. Dangosir yr effeithiau amcangyfrifedig sydd gan y newidiadau hyn mewn defnydd a gwariant alcohol ar refeniw i'r llywodraeth drwy dreth alcohol a TAW, wedi'u gwahanu yn refeniw a gesglir drwy fewnfasnach ac allfasnach yn Nhabl 11. Mae dyletswydd alcohol a TAW yn cynrychioli trosglwyddiadau economaidd (a dalwyd gan ddefnyddwyr i'r llywodraeth) ac nid oes ganddynt unrhyw effaith net ar yr economi.
39. Rhagwelir y bydd addasiadau i drothwy'r isafbris i bob uned o alcohol (MUP) yn cael effeithiau gwahanol ar refeniw'r trysorlys. Amcangyfrifir y bydd lleihau neu ddileu'r trothwy MUP yn arwain at gynnydd mewn refeniw treth alcohol, tra disgwylir i godi'r trothwy arwain at ostyngiad mewn refeniw o'r fath. Mae'r effeithiau hyn yn fwyaf amlwg yn y sector allfasnach, gan fod y trothwy MUP yn dylanwadu'n uniongyrchol ar brisiau allfasnach. I'r gwrthwyneb, mae prisiau mewnfasnach fel arfer yn fwy na'r lefelau sy'n cael eu modelu ac felly mae newidiadau i'r trothwy yn effeithio'n llai arnynt.
40. Priodolir gostyngiadau mewn refeniw treth o alcohol mewnfasnach i drawselastigedd prisiau, ond mae cynnydd mewn prisiau alcohol allfasnach yn arwain at lai o ddefnydd nid yn unig yn y sector allfasnach ond hefyd yn y sector mewnfasnach. Mae hyn yn dangos bod cynhyrchion alcohol mewnfasnach ac allfasnach yn ategu ymddygiad prynu defnyddwyr.

	Newid amcangyfrifedig mewn toll a refeniw TAW cronnus 5 mlynedd i'r llywodraeth (£miliwn)		
	Allfasnach	Mewnfasnach	Cyfanswm
Newid absoliwt mewn refeniw yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	£17	£5	£22
MUP o 40c	£7	£2	£9
MUP o 45c	£3	£1	£4
MUP o 50c (rheolydd)	£0	£0	£0
MUP o 55c	-£16	-£6	-£22
MUP o 60c	-£46	-£6	-£52
MUP o 65c	-£95	-£14	-£109
MUP o 70c	-£151	-£32	-£184
MUP o 75c	-£218	-£39	-£257
MUP o 80c	-£322	-£53	-£374
Newid cymharol mewn refeniw yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	0.50%	0.20%	0.36%
MUP o 40c	0.21%	0.06%	0.14%
MUP o 45c	0.10%	0.04%	0.07%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%
MUP o 55c	-0.49%	-0.22%	-0.37%
MUP o 60c	-1.37%	-0.23%	-0.86%
MUP o 65c	-2.85%	-0.52%	-1.80%
MUP o 70c	-4.55%	-1.17%	-3.02%
MUP o 75c	-6.55%	-1.42%	-4.23%
MUP o 80c	-9.66%	-1.91%	-6.15%

Tabl 11: Effeithiau wedi'u modelu ar refeniw cronnus 5 mlynedd y trysorlys o drethi alcohol 2026-2030 o'i gymharu â'r rheolydd.¹²

41. Asesodd y modelu sut y gallai newidiadau mewn gwariant defnyddwyr—ar ôl addasu ar gyfer trethiant—effeithio ar refeniw manwerthwyr. Er hynny, oherwydd diffyg data ar gostau cynhyrchu a gorbenion manwerthwyr, ni chafodd y ffactorau hyn eu cynnwys yn yr amcangyfrifon. Fel y dangosir yn Nhabl 12, rhagwelir y bydd cynnydd yn yr isafsbis i bob uned o alcohol (MUP) yn codi refeniw i fanwerthwyr allfasnach tra'n lleihau refeniw i fusnesau mewnfasnach. Yn gyffredinol, amcangyfrifir y bydd cyfanswm refeniw manwerthu yn codi os caiff y trothwy MUP ei ostwng neu ei ddileu ac yn gostwng os caiff y trothwy ei gynyddu.

¹² Tabl 13 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 54

	Newid amcangyfrifedig mewn refeniw cronrus 5 mlynedd i fanwerthwyr (£miliwn)		
	Allfasnach	Mewnfasnach	Cyfanswm
Newid absoliwt mewn refeniw yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	£3	£16	£19
MUP o 40c	£1	£5	£6
MUP o 45c	-£1	£3	£2
MUP o 50c (rheolydd)	£0	£0	£0
MUP o 55c	£4	-£17	-£13
MUP o 60c	-£4	-£18	-£22
MUP o 65c	£5	-£41	-£36
MUP o 70c	£31	-£93	-£62
MUP o 75c	£50	-£111	-£61
MUP o 80c	£61	-£148	-£87
Newid cymharol mewn refeniw yn erbyn y rheolydd			
Dileu MUP	0.09%	0.19%	0.16%
MUP o 40c	0.02%	0.06%	0.05%
MUP o 45c	-0.02%	0.04%	0.02%
MUP o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%
MUP o 55c	0.11%	-0.21%	-0.11%
MUP o 60c	-0.10%	-0.23%	-0.19%
MUP o 65c	0.13%	-0.51%	-0.31%
MUP o 70c	0.84%	-1.15%	-0.52%
MUP o 75c	1.35%	-1.37%	-0.51%
MUP o 80c	1.66%	-1.83%	-0.73%

Tabl 12: Effeithiau wedi'u modelu ar refeniw cronrus 5 mlynedd manwerthwyr o werthiannau alcohol (ac eithrio trethi) 2026-2030 o'i gymharu â'r rheolydd.¹³

Canlyniadau Iechyd

42. Mae'r canlyniadau amcanestynedig ar sail y modelu yn nodi y gall gymryd hyd at 20 mlynedd i newidiadau mewn yfed alcohol effeithio'n llawn ar y risg o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol ac felly disgwylir i effeithiau iechyd cyflawn pob model polisi gael eu gweld erbyn 2045. Ar gyfer yr adran hon, oni nodir fel arall, cyflwynir yr holl ganlyniadau yn yr adran hon fel ffigurau cronrus dros gyfnod o 20 mlynedd, rhwng 2026 a 2045.

43. Mae Tabl 13 yn dangos cyfanswm y newid mewn marwolaethau o bob achos o dan bob senario MUP, o'i gymharu â'r rhagdybiaeth sylfaenol bod yr isafbris uned o 50c yn parhau i fod yn ei le. Mae Tabl 14 yn cyflwyno'r ffigurau cyfatebol ar gyfer marwolaethau alcohol-benodol.

¹³ Tabl 14 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 56

44. Mae'r canfyddiadau'n awgrymu bod gostwng neu ddileu'r trothwy MUP yn debygol o arwain at gynnydd bach mewn marwolaethau. Er enghraifft, gallai cael gwared ar y MUP arwain at ryw 200 o farwolaethau ychwanegol o bob achos, gan gynnwys 160 yn fwy o farwolaethau alcohol-benodol.
45. I'r gwrthwyneb, rhagwelir y bydd codi'r trothwy MUP yn lleihau marwolaethau. Amcangyfrifir bod isafbris am alcohol (MPA) o 65c, er enghraifft, yn atal tua 902 o farwolaethau o bob achos, gan gynnwys 628 o farwolaethau alcohol-benodol.
46. Mae yfwyr niweidiol, sydd fwyaf agored i niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn fwy sensitif i gynnydd mewn prisiau na i ostyngiad prisiau. Pan fydd prisiau'n codi, maent yn lleihau'r defnydd, gan arwain at fanteision iechyd mawr. Pan fydd prisiau'n gostwng, mae eu defnydd yn cynyddu, ond nid cynyddu mor arw. Mae llawer o bobl sy'n yfed yn beryglus eisoes yn yfed ar lefelau uchel, felly mae tynnu MUP dim ond yn ychwanegu ychydig at batrwm sydd eisoes yn beryglus. Yn groes i hynny, mae codi MUP yn lleihau'r defnydd peryglus hwnnw, gan greu gostyngiad mawr mewn niwed.

	Blwyddyn 1	Cronnus dros 5 mlynedd	Cronnus dros 20 mlynedd
Newid absoliwt mewn marwolaethau yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	3	41	200
MPA o 40c	2	17	105
MPA o 45c	1	9	37
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	-7	-38	-178
MPA o 60c	-17	-92	-430
MPA o 65c	-37	-188	-902
MPA o 70c	-61	-296	-1,586
MPA o 75c	-93	-405	-2,272
MPA o 80c	-133	-557	-3,187
Newid mewn marwolaethau fesul 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	0	0	0
MPA o 40c	0	0	0
MPA o 45c	0	0	0
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	0	0	0
MPA o 60c	-1	-1	-1
MPA o 65c	-2	-2	-2
MPA o 70c	-2	-2	-4
MPA o 75c	-4	-3	-5
MPA o 80c	-5	-5	-7

Tabl 13: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar farwolaethau pob achos¹⁴

¹⁴ Tabl 15 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 61

	Blwyddyn 1	Cronnus dros 5 mlynedd	Cronnus dros 20 mlynedd
Newid absoliwt mewn marwolaethau alcohol-benodol yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	2	23	160
MPA o 40c	1	10	73
MPA o 45c	0	5	34
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	-5	-25	-125
MPA o 60c	-9	-57	-312
MPA o 65c	-22	-116	-628
MPA o 70c	-33	-177	-1,063
MPA o 75c	-49	-237	-1,549
MPA o 80c	-71	-325	-2,210
Newid cymharol yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	0.43%	0.73%	1.13%
MPA o 40c	0.21%	0.32%	0.51%
MPA o 45c	0.08%	0.16%	0.24%
MPA o 50c (rheolydd)	0.00%	0.00%	0.00%
MPA o 55c	-0.84%	-0.78%	-0.88%
MPA o 60c	-1.70%	-1.80%	-2.20%
MPA o 65c	-3.96%	-3.67%	-4.43%
MPA o 70c	-5.97%	-5.61%	-7.51%
MPA o 75c	-8.80%	-7.52%	-10.94%
MPA o 80c	-12.85%	-10.31%	-15.60%

Tabl 14: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar farwolaethau alcohol-benodol¹⁵

47. Mae'r newidiadau mewn marwolaethau pob achos cronnus 20 mlynedd wedi'u gwahanu yn ôl cwintel MALIC a'u cyflwyno yn Nhabl 15. Mae'r gostyngiadau mwyaf mewn marwolaethau wrth gynyddu'r trothwy MPA yn y grwpiau mwyaf difreintiedig.

¹⁵ Tabl 16, Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 63


	C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)	C2 MALIC	C3 MALIC	C4 MALIC	C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)
Newid absoliwt mewn marwolaethau yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	19	28	52	15	85
MPA o 40c	8	11	25	18	42
MPA o 45c	4	5	9	9	8
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	-6	-20	-35	-18	-99
MPA o 60c	-31	-53	-95	-54	-198
MPA o 65c	-71	-88	-204	-150	-389
MPA o 70c	-155	-158	-347	-303	-623
MPA o 75c	-274	-204	-545	-410	-840
MPA o 80c	-502	-309	-722	-565	-1,089
Newid mewn marwolaethau fesul 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	0	0	1	0	1
MPA o 40c	0	0	0	0	0
MPA o 45c	0	0	0	0	0
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	0	0	0	0	-1
MPA o 60c	0	-1	-1	-1	-2
MPA o 65c	-1	-1	-2	-2	-4
MPA o 70c	-2	-2	-4	-3	-6
MPA o 75c	-3	-2	-6	-4	-9
MPA o 80c	-6	-4	-8	-6	-11

Tabl 15: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar farwolaethau pob achos yn ôl cwintel MALIC¹⁶

48. Mae Tabl 16 a Thabl 17 yn dangos y newid o flwyddyn i flwyddyn mewn marwolaethau o dan y senario MUP o 65c, gyda marwolaethau sydd wedi'u hosgoi yn cynyddu i ddechrau cyn sefydlogi ar ôl 4-5 mlynedd. Mae'r patrwm hwn yn adlewyrchu tri ffactor allweddol: oedi o ran amser mewn canlyniadau iechyd, lle mae effaith lawn yfed llai o alcohol—

49. yn enwedig ar gyfer cyflyrau cronig fel canser—yn gallu cymryd hyd at 20 mlynedd i ddod i'r amlwg; detholiad marwolaethau, lle mae'r rhai sydd â'r risg uchaf (yfwyr trwm) yn fwy tebygol o farw'n gynharach, gan leihau defnydd cyfartalog a marwolaethau yn raddol; a dadleoli marwolaethau, lle mae marwolaethau yn cael eu gohirio yn hytrach na'u hatal, sy'n golygu y bydd rhai unigolion y mae eu bywydau yn cael eu hymestyn gan y polisi yn dal i farw o fewn amserlen y model, deinameg a welir yn ffigurau'r blynyddoedd o fywyd a gollir (YLL).

¹⁶ Tabl 17 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 66



Tabl 16: Newidiadau wedi'u modelu mewn marwolaethau pob achos dros amser o dan MPA o 65c¹⁷


	Blwyddyn 1	Cronnus dros 5 mlynedd	Cronnus dros 20 mlynedd
Newid absoliwt mewn derbyniadau i'r ysbyty yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	29	370	1,830
MPA o 40c	14	151	816
MPA o 45c	7	75	362
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	-58	-364	-1,499
MPA o 60c	-133	-851	-3,619
MPA o 65c	-308	-1,692	-7,270
MPA o 70c	-543	-2,782	-12,864
MPA o 75c	-800	-3,839	-19,010
MPA o 80c	-1,131	-5,332	-27,259
Newid mewn derbyniadau i bob 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	1	3	4
MPA o 40c	1	1	2
MPA o 45c	0	1	1
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	-2	-3	-3
MPA o 60c	-5	-7	-8
MPA o 65c	-12	-14	-16
MPA o 70c	-22	-23	-28
MPA o 75c	-32	-31	-42
MPA o 80c	-46	-44	-60

Tabl 17: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar dderbyniadau cronnus i'r ysbyty¹⁸

¹⁷ Ffigur 18 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 69

¹⁸ Tabl 18 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 81

50. Mae Tabl 18 yn adeiladu ar senario MUP o 65c drwy ddadansoddi effeithiau marwolaethau yn ôl cyflwr iechyd, gyda'r llinell ddu doredig yn dangos y duedd gyffredinol o Dabl 16. Mae'r cynnydd graddol mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'i osgoi, yn enwedig y gostyngiad wedi'i ohirio mewn marwolaethau cancer sy'n gysylltiedig ag alcohol tan 2038, yn adlewyrchu oedi o ran amser mewn canlyniadau iechyd. I'r gwrthwyneb mae detholiad marwolaethau yn lleihau buddion hirdymor wrth i unigolion risg uchel farw'n gynharach, gan leihau defnydd cyfartalog. Dangosir dadleoli marwolaethau gan fariau llwyd sy'n nodi cynnydd mewn marwolaethau o achosion nad ydynt yn gysylltiedig ag alcohol ymhlith y rhai y cafodd eu marwolaethau cynamserol sy'n gysylltiedig ag alcohol eu hatal. Gyda'i gilydd, mae'r effeithiau hyn yn esbonio'r cynnydd cychwynnol a'r sefydlogrwydd diweddarach mewn buddion marwolaethau dros y cyfnod o 20 mlynedd.



Tabl 18: Newidiadau wedi'u modelu mewn marwolaethau pob achos dros amser o dan MPA o 65c yn ôl cyflwr ¹⁹

51. Cyflwynir canlyniadau modelu sy'n dangos effaith pob ystod MUP ar dderbyniadau cronus i'r ysbyty yn Nhabl 17 ac yn ôl cwintel MALIC yn Nhabl 19. Mae'r rhain yn dilyn patrwm tebyg i'r canlyniadau marwolaethau, gyda throthwyon MUP uwch yn arwain at ostyngiadau uwch mewn derbyniadau, yn enwedig mewn grwpiau mwy difreintiedig.

¹⁹ Ffigur 19 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 73

	C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)	C2 MALIC	C3 MALIC	C4 MALIC	C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)
Newid absoliwt mewn derbyniadau i'r ysbyty yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	170	214	371	312	764
MPA o 40c	72	80	152	126	385
MPA o 45c	35	36	67	62	162
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	-84	-172	-292	-254	-697
MPA o 60c	-308	-435	-797	-577	-1,502
MPA o 65c	-683	-785	-1,652	-1,277	-2,874
MPA o 70c	-1,473	-1,382	-2,851	-2,386	-4,772
MPA o 75c	-2,543	-1,910	-4,653	-3,293	-6,611
MPA o 80c	-4,638	-2,863	-6,200	-4,595	-8,964
Newid mewn derbyniadau i bob 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	2	3	4	3	8
MPA o 40c	1	1	2	2	4
MPA o 45c	0	0	1	1	2
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	-2	-2	-3	-3	-7
MPA o 60c	-4	-5	-9	-7	-16
MPA o 65c	-9	-9	-18	-14	-30
MPA o 70c	-18	-16	-31	-25	-49
MPA o 75c	-31	-22	-49	-34	-69
MPA o 80c	-56	-33	-66	-48	-93

Tabl 19: Effeithiau modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar dderbyniadau cronus i'r ysbyty dros 20 mlynedd yn ôl cwintel MALIC²⁰

52. Mae Tabl 1.20 yn cyflwyno effaith amcangyfrifedig pob senario polisi ar Flynyddoedd o Fwyd a Gollir (YLL) oherwydd marwolaeth gynamserol, gyda dadansoddiad yn ôl cwintel MALIC a ddangosir yn Nhabl 1.21. Yn ôl y disgwyl, mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu'n agos y patrymau a welwyd yn y dadansoddiad marwolaethau.

²⁰ Tabl 19 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 83

	Blwyddyn 1	Cronnus dros 5 mlynedd	Cronnus dros 20 mlynedd
Newid absoliwt mewn YLLs yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	100	1,311	7,253
MPA 0 40c	51	546	3,289
MPA o 45c	23	281	1,528
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA o 55c	-209	-1,199	-5,834
MPA o 60c	-434	-2,813	-14,691
MPA o 65c	-1,017	-5,867	-29,825
MPA o 70c	-1,678	-9,293	-51,522
MPA o 75c	-2,523	-12,557	-76,055
MPA o 80c	-3,529	-17,127	-108,600
Newid mewn YLLs fesul 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd			
Dileu MPA	4	11	16
MPA 0 40c	2	4	7
MPA o 45c	1	2	3
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0
MPA 0 55c	-8	-10	-13
MPA 0 60c	-18	-23	-32
MPA o 65c	-41	-48	-65
MPA o 70c	-68	-76	-111
MPA o 75c	-102	-102	-163
MPA o 80c	-143	-140	-233

Tabl 20: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid trothwy MPA ar YLLs cronnus i farwolaeth gynamserol²¹

²¹ Tabl 20, Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 85

	C1 MALIC (lleiaf difreintiedig)	C2 MALIC	C3 MALIC	C4 MALIC	C5 MALIC (mwyaf difreintiedig)
Newid absoliwt mewn YLLs yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	522	638	1,524	1,247	3,322
MPA o 40c	228	241	597	534	1,688
MPA o 45c	115	114	282	247	770
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	-225	-463	-1,250	-967	-2,929
MPA o 60c	-963	-1,220	-3,538	-2,360	-6,611
MPA o 65c	-2,262	-2,219	-7,581	-5,240	-12,523
MPA o 70c	-5,315	-3,841	-12,513	-9,656	-20,197
MPA o 75c	-9,704	-5,077	-20,326	-13,328	-27,619
MPA o 80c	-19,317	-7,556	-26,420	-18,412	-36,895
Newid mewn YLLs fesul 100,000 o flynyddoedd person yn erbyn y rheolydd					
Dileu MPA	6	7	15	13	33
MPA o 40c	3	3	6	6	17
MPA o 45c	1	1	3	3	8
MPA o 50c (rheolydd)	0	0	0	0	0
MPA o 55c	-5	-5	-13	-10	-29
MPA o 60c	-13	-14	-38	-25	-67
MPA o 65c	-30	-25	-79	-53	-127
MPA o 70c	-64	-44	-130	-97	-204
MPA o 75c	-117	-60	-208	-133	-279
MPA o 80c	-229	-88	-272	-185	-374

Tabl 21: Effeithiau wedi'u modelu dileu neu newid y trothwy MPA ar YLLs cronus yn ôl cwintel MALIC²²

53. Mae Tabl 22 yn dangos effaith amcanestynedig pob polisi MPA wedi'i fodelu ar gostau derbyniadau i ysbytai'r GIG, o'i gymharu â chynnal y MPA presennol o 50c presennol yn 2026. Mae'n cyflwyno'r newidiadau cost cronus dros y 5 mlynedd gyntaf a'r cyfnod modelu 20 mlynedd llawn.

²² Tabl 21 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 87

	Newid yng nghostau derbyniadau i ysbytai'r GIG (£m)	
	Cronnus 5ml	Cronnus 20ml
Dileu MPA	£0.7	£3.7
MPA o 40c	£0.3	£1.7
MPA o 45c	£0.2	£0.7
MPA o 50c (rheolydd)	£0.0	£0.0
MPA o 55c	-£0.7	-£3.1
MPA o 60c	-£1.7	-£7.4
MPA o 65c	-£3.3	-£14.9
MPA o 70c	-£5.5	-£26.2
MPA o 75c	-£7.6	-£38.6
MPA o 80c	-£10.6	-£55.3

Tabl 22: Effaith wedi'i modelu polisïau ar gostau ysbytai'r GIG yn gronnus dros 5 ac 20 mlynedd ar ôl rhoi'r polisi ar waith - heb ei ddisgowntio²³

Dadansoddiadau sensitifrwydd

Mae Tabl 23²⁴ yn dangos effaith y tair set o ragdybiaethau amgen ar yr amcangyfrifon wedi'u modelu o newidiadau yn y defnydd o alcohol a gwariant ar alcohol o dan MPA o 65c. Mae hyn yn dangos bod effaith amcangyfrifedig ychydig yn fwy ar ddefnydd a gwariant wrth gymhwyso pob elastigedd (gan gynnwys elastigedd dibwys) Pryce et al. (SA1) o'i gymharu â'r achos sylfaen (elastigeddau sy'n arwyddocaol yn ystadegol yn unig). Pan fydd y modelu yn defnyddio elastigedd pris y nwydd ei hun yn unig (SA2) mae gostyngiad amcangyfrifedig sylweddol lai yn y defnydd o alcohol a *chynnydd* yn hytrach na gostyngiad mewn gwariant. Mae cymhariaeth debyg â defnyddio'r elastigedd prisiau OBR (SA3), gyda gostyngiadau llai mewn defnydd a chynnydd mewn gwariant defnyddwyr. Yn nodedig, mae'r elastigedd OBR hefyd yn cynnwys elastigedd pris y nwydd ei hun yn unig.

²³ Tabl 22 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 88

²⁴ Tabl 23 Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 90

	Elastigedd Achos Sylfaen	SA1 - Pob elastigedd Pryce	SA2 - Elastigedd pris y nwydd ei hun yn unig	SA3 - Elastigedd CThEF/OBR
Defnydd sylfaenol o alcohol (unedau/yfwr/wythnos)	11.3	11.3	11.1	11.1
Newid absoliwt o dan MPA o 65c yn erbyn y rheolydd	-0.3	-0.3	-0.2	-0.2
Newid cymharol yn erbyn y rheolydd	-2.68%	-2.95%	-2.13%	-1.68%
Gwariant sylfaenol (£/yfwr/wythnos)	£32.49	£32.71	£32.10	£32.17
Newid absoliwt o dan MPA o 65c yn erbyn y rheolydd	-£0.13	-£0.20	£0.04	£0.12
Newid cymharol yn erbyn y rheolydd	-0.40%	-0.61%	0.12%	0.38%

Tabl 23: Effeithiau wedi'u modelu rhagdybiaethau model amgen ar y defnydd o alcohol a gwariant ar alcohol ar gyfer MPA o 65c

Dangosir effaith y dadansoddiadau sensitifrwydd hyn ar ganlyniadau iechyd yn Nhabl 24²⁵. Mae'r rhain yn dangos patrwm tebyg i'r canlyniadau defnydd yn Nhabl 23, gyda gwahaniaethau cymharol fach rhwng yr achos sylfaen a SA1, tra bo SA2 a SA3 yn dangos effeithiau cyffredinol llai ar farwolaethau, derbyniadau i'r ysbyty a YLLs. Mae Tabl 25²⁶ yn dangos effaith rhagdybiaethau'r model amgen ar effaith cynyddu'r trothwy MPA i 65c ar gostau'r GIG. Mae'r rhain eto yn dangos patrymau tebyg i Dabl 24, gyda newidiadau tebyg yn yr achos sylfaen a SA1, ac effeithiau llai yn SA2 a SA3.

²⁵ Tabl 24, Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 94

²⁶ Tabl 25, Adroddiad Modelu Sheffield, tudalen 94

	Elastigeddau Achos Sylfaen	SA1 - Pob elastigedd Pryce	SA2 - Elastigedd pris y nwydd ei hun yn unig	SA3 - Elastigedd CThEF/OBR
Marwolaethau blynyddol y gellir eu priodoli i alcohol	699	704	682	684
Newid cronnus absoliwt mewn marwolaethau o dan MPA o 65c yn erbyn y rheolydd dros 20 mlynedd	-902	-982	-722	-633
Derbyniadau blynyddol i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol	11,243	11,303	11,069	11,078
Newid cronnus absoliwt mewn derbyniadau i'r ysbyty o dan MPA o 65c yn erbyn y rheolydd dros 20 mlynedd	-7,270	-7,843	-5,890	-5,142
YLLs blynyddol i alcohol i bob 100,000 o yfwyr	1,163	1,172	1,137	1,139
Newid cronnus absoliwt mewn YLLs yn achos MPA o 65c yn erbyn y rheolydd dros 20 mlynedd	-29,825	-31,983	-23,882	-20,988

Tabl 24: Effeithiau wedi'u modelu rhagdybiaethau model amgen ar niwed i iechedd ar gyfer MPA o 65c

	Elastigeddau Achos Sylfaen	SA1 - Pob elastigedd Pryce	SA2 - Elastigedd pris y nwydd ei hun yn unig	SA3 - Elastigedd CThEF/OBR
Newid yng nghostau derbyniadau i ysbytai'r GIG yn 2026 yn erbyn y rheolydd o dan MPA o 65c (£m)	-£0.6	-£0.7	-£0.5	-£0.3
Newid yng nghostau derbyniadau i ysbytai'r GIG (5 mlynedd gronnus) yn erbyn y rheolydd o dan MPA o 65c (£m)	-£3.3	-£3.7	-£2.5	-£2.1
Newid yng nghostau derbyniadau i ysbytai'r GIG (20 mlynedd gronnus) yn erbyn y rheolydd o dan MPA o 65c (£m)	-£14.9	-£16.1	-£12.0	-£10.4

Tabl 25: Effeithiau wedi'u modelu rhagdybiaethau model amgen ar gostau ysbytai'r GIG ar gyfer MPA o 65c

Opsiwn 1 - Gostwng neu ddileu'r isafbris uned i lai na 50c yr uned.

Manteision

54. Er gwaethaf y risgiau, a nodir isod, sy'n gysylltiedig â lleihau neu ddileu'r MUP byddai effaith fach iawn yn unig ar y farchnad. Mae data cyfredol y farchnad yn awgrymu y gallai dylanwad y trothwy o 50c yr uned fod yn lleihau. Yn ôl yr amcangyfrifon diweddaraf, mae 94.4% o alcohol yn cael ei werthu dros 60c yr uned, gan gynnwys 93.1% o alcohol sy'n cael ei yfed gan yfwyr trwm. Mae hyn yn dangos nad yw'r MUP o 50c yr uned o bosibl yn effeithio'n sylweddol ar bris y cynhyrchion alcohol rhataf, gan gyfyngu ar effaith ymarferol unrhyw newid.

Risgiau

55. Mae modelu yn awgrymu y byddai lleihau'r trothwy MUP o dan y 50 yr uned (ppu) presennol yn arwain at gynydd cyffredinol mewn yfed alcohol a niwed i iechyd. Rhagwelir y bydd hyn yn arwain at fwy o niwed i iechyd sy'n gysylltiedig ag alcohol, gyda'r effeithiau mwyaf arwyddocaol yn cael eu gweld ymhlith unigolion yn y cymunedau mwyaf difreintiedig.

56. Er bod MUP yn gosod terfyn isaf ar gyfer prisiau, gallai cynhyrchion sydd wedi'u cyfyngu ar hyn o bryd gan y trothwy o 50c yr uned ailymuno i'r farchnad ac yn ôl pob tebyg byddent yn ailymuno i'r farchnad ar brisiau is os caiff y trothwy ei leihau. Gallai hyn beri i gynhyrchion alcohol cryfder uchel ar gost isel ailymddangos, gan danseilio amcanion iechyd cyhoeddus.

57. Mae'r dystiolaeth o Fodel Polisi Alcohol Sheffield yn dangos y gallai lleihau'r MUP i 40c neu 45c— neu ei ddileu'n llwyr—arwain at newid mewn ymddygiadau a phatrymau yfed. Yn benodol, gall rhai unigolion symud o yfed cymedrol i yfed peryglus, ac eraill o lefelau peryglus i lefelau niweidiol. Pe bai MUP yn cael ei ddileu'n llwyr, mae amcanestyniadau ar gyfer 2026 yn amcangyfrif cynnydd o 461 o yfwyr peryglus a 959 o yfwyr niweidiol, ochr yn ochr â gostyngiad o 1,420 o yfwyr cymedrol.

58. Byddai lleihau neu ddileu'r trothwy MUP yn groes i nod craidd polisi Llywodraeth Cymru i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd. Byddai hefyd yn anghyson ag ymrwymiad ehangach Llywodraeth Cymru i leihau effeithiau negyddol yfed alcohol ar iechyd.

Opsiwn 2 - Cadw'r swm o 50c yr uned.

Manteision

59. Mae canfyddiadau'r gwerthuso a'r Adroddiad Gweithrediad ac Effaith yn dangos bod y trothwy o 50c yr uned wedi bod yn effeithiol wrth gefnogi nodau trosfwaol y ddeddfwriaeth ar bennu isafbris uned. Mae'r polisi wedi cyfrannu'n gadarnhaol at

leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac mae wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru.

60. Mae gwerthusiadau annibynnol wedi darparu asesiad cadarnhaol o'r MUP fel mesur iechyd y cyhoedd. Maent yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadw MUP fel offeryn polisi, gan gydnabod ei werth o ran mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac anghydraddoldebau iechyd.

Risgiau

61. Ers iddo gael ei gyflwyno ym mis Mawrth 2020, mae gwerth y trothwy o 50c yr uned mewn termau real wedi gostwng oherwydd chwyddiant a chostau byw cynyddol. Mae chwyddiant uchel yn ystod 2022-2023, yn benodol, wedi lleihau pŵer prynu'r MUP yn sylweddol. Pan gaiff ei addasu gan ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH), mae'r trothwy o 50c yr uned yn 2026 yn cyfateb i ddim ond 39c yn unig ym mhrisiau 2020.
62. Fel y nodwyd mewn modelu a gwerthusiadau diweddar, nid yw'r trothwy presennol o 50c yr uned bellach yn dylanwadu'n sylweddol ar bris y cynhyrchion alcohol rhataf ac fel y nodwyd uchod mae'n cyfateb i 39c yn ôl prisiau 2020. Mae hyn yn awgrymu bod gallu'r polisi i effeithio ar ymddygiad defnyddwyr a lleihau'r defnydd o alcohol cost isel, cryfder uchel wedi gwanhau dros amser.
63. Y prif argymhelliad gan werthuswyr yw na ddylai Llywodraeth Cymru ganiatáu i'r MUP ddod i ben ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yng nghanlyniad camau ymgynghori'r Adroddiad Gweithredu ac Effaith hefyd.

Opsiwn 3 - Cynyddu'r swm i fwy na 50c yr uned ond heb fod yn fwy na 60c yr uned.

Manteision

64. Byddai cynyddu'r MUP i 55c yr uned neu 60c yr uned yn gam tuag at adfer effeithiolrwydd y polisi, sydd wedi'i erydu gan chwyddiant ers i'r trothwy o 50c yr uned gael ei chyflwyno. Er y byddai enillion iechyd cyhoeddus cynyddol ar 55c yr uned, byddai lefel o 60c yr uned, yn benodol, yn cyd-fynd yn agosach â chynnal manteision presennol y polisi ac fe allai gyflawni gwelliannau iechyd cyhoeddus ychwanegol cymedrol.
65. O'i gymharu â throthwyon uwch, megis 65c yr uned neu'n uwch, byddai cynnydd mwy cymedrol i 55c yr uned neu 60c yr uned yn debygol o arwain at lai o darfu ar y farchnad alcohol a llai o effaith ar ddiwydiant, yn enwedig y rhai sy'n gwerthu cynhyrchion canolig a phremiwm.

Risgiau

66. Er bod 55c yr uned a 60c yr uned yn gynydd ar y gyfradd bresennol, mae'n bosibl y byddant yn methu â symud gam wrth gam â chwyddiant. Er enghraifft, mae'r modelu yn awgrymu bod gwerth 50c yr uned mewn termau real yn 2026 yn cyfateb i 39c yn unig ym mhrisiau 2020. O'r herwydd, byddai trothwy o 55c yr

uned o bosibl yn addasiad annigonol, wrth gymryd chwyddiant i ystyriaeth, i gynnal manteision iechyd cyhoeddus arfaethedig y polisi dros amser.

67. Mae'n bosibl mai dim ond gwelliant bach yn effaith y polisi a fyddai'n deillio o gynnydd llai, gan arwain at effeithiolrwydd hirdymor cyfyngedig. Gallai hefyd arwain at enillion lleihaol o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Heb addasiad mwy sylweddol, gallai effeithiolrwydd MUP fel ymyrraeth iechyd y cyhoedd barhau i ddirywio.
68. Er bod 55c yr uned a 60c yr uned yn cynnig rhywfaint o welliant, efallai na fyddant yn cyflawni lefel yr effaith sy'n ofynnol i gyflawni'r amcan o wella buddion iechyd y cyhoedd, yn enwedig y rhai a gyflawnwyd o dan gyflwyniad gwreiddiol y polisi.

Opsiwn 4 - Cynyddu i 65c yr uned.

Manteision

69. Mae modelu o Fodel Polisi Alcohol Sheffield yn rhagamcanu enillion iechyd cyhoeddus sylweddol drwy gynyddu'r MUP i 65c yr uned. Dros gyfnod o 20 mlynedd, amcangyfrifir y bydd y newid hwn yn atal 902 o farwolaethau pob achos, gan gynnwys 628 o farwolaethau alcohol-benodol. Yn y flwyddyn gyntaf yn unig, gellid osgoi 22 o farwolaethau alcohol-benodol.
70. Disgwylir i'r cynnydd arfaethedig leihau rhyw 6,363 ar nifer yr yfwyr peryglus a 4,906 ar yfwyr niweidiol, tra'n hybu symud at ddefnydd cymedrol, gyda chynnydd amcangyfrifedig o 11,270 o yfwyr cymedrol. Disgwylir i'r polisi gael yr effaith fwyaf mewn ardaloedd sydd â lefelau uwch o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau iechyd.
71. Er i'r trothwy o 60c yr uned gynnig rhywfaint o welliant, rhagwelir y bydd MUP o 65c yr uned yn darparu manteision iechyd mwy byth, gan gynnwys achub bywydau ychwanegol ym flwyddyn gyntaf ei weithredu.
72. Mae'r trothwy presennol o 50c yr uned wedi dod yn llai effeithiol oherwydd chwyddiant a thueddiadau'r farchnad ac erbyn 2026, disgwylir i dros 93% o alcohol gael ei werthu uwchlaw 60c yr uned, hyd yn oed ymhlith yfwyr trwm a'r rhai yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Byddai codi'r trothwy i 65c yr uned yn adfer gallu'r polisi i ddylanwadu ar bris y cynhyrchion alcohol rhataf, mwyaf niweidiol.
73. Yn ystod ymgynghoriad 2025 ar Weithrediad ac Effaith MUP ers ei sefydlu, argymhellodd sawl sefydliad gynyddu'r trothwy i 65c yr uned. Byddai hyn yn cysoni Cymru â'r Alban, a gododd ei MUP ym mis Medi 2024, ac fe fyddai'n cefnogi cysondeb i fanwerthwyr a chyflenwyr cenedlaethol sy'n gweithredu ar draws y ddwy wlad.

Risgiau

74. Er y gallai'r cynnydd effeithio ar segment bach o'r farchnad alcohol, yn enwedig cynhyrchion cost isel, cryfder uchel, mae hyn yn cyd-fynd â bwriad gwreiddiol y

polisi pan gafodd ei gyflwyno gyntaf. Er hynny, disgwylir i'r tarfu cyffredinol fod yn gyfyngedig oherwydd y gyfran uchel o alcohol sydd eisoes yn cael ei werthu uwchlaw'r trothwy arfaethedig.

75. Fel gydag unrhyw ymyrraeth sy'n seiliedig ar bris, efallai y bydd pryderon am fforddiadwyedd ymhlith rhai grwpiau defnyddwyr. Er hynny, bwriedir i'r polisi dargedu'r cynhyrchion alcohol rhataf, cryfaf sy'n gysylltiedig fwyaf â phatrymau yfed niweidiol.

Opsion 5 - Mwy na 65c yr uned

Manteision

76. Byddai cynyddu'r MUP y tu hwnt i 65 yr uned (e.e. i 70, 75, neu 80c yr uned) yn debygol o sicrhau mwy o ostyngiadau mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol a gwella'r effaith ar iechedd y cyhoedd drwy atal y defnydd o alcohol rhad, cryfder uchel ymhellach. Gallai hyn gynyddu'r canlyniadau iechedd cadarnhaol sydd eisoes yn gysylltiedig â MUP.

Risgiau

77. Byddai cynnydd mewn prisiau o fwy na 65c yr uned yn gynydd sylweddol y tu hwnt i chwyddiant ac fe allai effeithio ar hyd at 80% o gynhyrchion alcohol ar y farchnad ac achosi tarfu sylweddol, gan gynnwys o ran rhai brandiau premiwm. Byddai hyn yn newid sylweddol o'r cwmbras polisi presennol a gellid ei ystyried yn ymyrraeth sy'n achosi mwy o darfu.
78. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai trothwyon MUP uwch yn cael effaith fwy amlwg ar ddefnyddwyr a'r diwydiant diodydd alcoholaidd. Mae hyn yn cynnwys goblygiadau posibl ar gyfer strategaethau priso, argaeledd cynhyrchion, a dewis defnyddwyr.
79. Er ei fod yn cydnabod y potensial ar gyfer mwy o fuddion iechedd, ni fyddai pennu'r MUP yn uwch na 65c yr uned yn taro cydbwysedd priodol rhwng amcanion iechedd cyhoeddus a'r effaith economaidd ehangach ar y sector.

Costau

80. Yng Nghymru, mae 5.6% o'r holl alcohol a werthir yn cael ei brisio o dan 60c yr uned. Mae pryniannau ar y pwynt pris hwn yn cyfrif am 4.4% yn unig o'r alcohol a yfir gan yfwyr cymedrol, o'i gymharu â 6.9% ymhlith yfwyr niweidiol. Yn ogystal, mae 18.5% o werthiannau alcohol yn digwydd islaw'r trothwyon o 70c ac 80c yr uned.

Gwariant Defnyddwyr

81. Ar draws yr holl yfwyr, amcangyfrifir bod lleihau neu ddileu'r trothwy MPU yn cynyddu gwariant; tra mae ei godi yn lleihau gwariant.
82. Mae Adroddiad Modelu Sheffield yn amcangyfrif y newid mewn gwariant wythnosol ar alcohol i bob yfwr ar draws y boblogaeth yfed gyfan (tua 2 filiwn o unigolion) o dan wahanol senarios Isafbris Uned (MUP), o'i gymharu â'r waelodlin o 50c yr uned.

Gwariant Gwaelodlin

83. O dan y MUP presennol o 50c, amcangyfrifir bod gwariant wythnosol cyfartalog i bob yfwr yn £32.49 ac mae dileu'r trothwy yn llwyr yn arwain at gynnydd bach mewn gwariant wythnosol (+£0.05 neu +0.16%).

84. Mae lleihau MUP o'i gyfradd bresennol i 40c neu 45c hefyd yn arwain at gynnydd ymylol mewn gwariant o +£0.02 a +£0.01 yn y drefn honno.

85. Mae codi MUP yn uwch na 50c yn arwain at ostyngiad graddol mewn gwariant wythnosol:

Yn 55c, mae'r gwariant yn gostwng £0.04 (-0.12%).

Yn 65c, mae'r gostyngiad yn £0.13 (-0.40%).

Yn 80c, mae'r gostyngiad yn cyrraedd £0.49 yr wythnos (-1.52%).

86. Mae'r newidiadau mewn gwariant yn gymharol gymedrol ar draws pob senario, gyda'r gostyngiad mwyaf (yn 80ppu) yn dal i gyfrif am lai na 2% o'r gwariant wythnosol cyfartalog ar alcohol.

87. Er bod addasiadau MUP yn dylanwadu ar wariant defnyddwyr, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod yr effaith ariannol ar yfwyr unigol yn gyfyngedig o ran ei graddfa, yn enwedig pan gaiff ei phwyso yn erbyn y buddion iechyd cyhoeddus posibl.

88. Fel y nodir ym mharagraff 8, nododd y gwerthusiadau annibynnol o MUP yng Nghymru sawl canlyniad anfwriadol. Er i'r polisi lwyddo i ddileu alcohol rhad, cryfder uchel o'r farchnad a chyflawni cydymffurfiaeth uchel ymhlith manwerthwyr, daeth rhai ymddygiadau addasol i'r amlwg. Yn nodedig, roedd tystiolaeth o newid o seidr a lagers cryf rhad i ddiodydd alcoholaidd eraill megis gwin a gwirodydd, a allai beri risgiau iechyd cyfartal neu fwy. Ymhlith yfwyr dibynnol ar incwm isel, gwelwyd mwy o straen ariannol, gyda rhai unigolion yn cynnal y defnydd o alcohol drwy aberthu hanfodion megis taliadau bwyd neu filiau. Er bod ofnau cychwynnol y byddai yfwyr yn troi at gyffuriau anghyfreithlon neu y byddai cynnydd sylweddol mewn troseddu yn ddi-sail i raddau helaeth, adroddwyd am achosion cyfyngedig o ymddygiadau o'r fath ymhlith lleiafrif o yfwyr hynod o agored i niwed. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i fonitro ac asesu effaith ehangach y ddeddfwriaeth dros y blynyddoedd i ddod.

Effeithiau ar Refeniw Manwerthwyr

89. Mae'r modelu yn cyflwyno'r newid amcangyfrifedig mewn refeniw cronus i fanwerthwyr alcohol dros gyfnod o bum mlynedd (2026–2030), o dan wahanol senarios MUP. Mae'r data wedi'i dadagregu yn ôl sectorau o allfasnach (e.e. archfarchnadoedd, siopau diodydd trwyddedig) a mewnfasnach (e.e. tafarndai, bariâu), a'i gymharu â gwaelodlin MUP o 50c.

90. Byddai gostwng y trothwyon MUP yn is na'i derfyn presennol o 50c yn arwain at gynnydd cymedrol yng nghyfanswm y refeniw manwerthu. Er enghraifft, rhagwelir y bydd dileu MUP yn gyfan gwbl yn cynyddu cyfanswm refeniw manwerthu £19

miliwn (+0.16%), gydag enillion mewn allfasnach (+£3m) a mewnfasnach (+£16m).

91. Mewn cymhariaeth, mae'r trothwyon sy'n uwch na'r terfyn presennol o 50c yn debygol o arwain at ostyngiad yng nghyfanswm refeniw manwerthu, wedi'i sbarduno gan golledion yn y sector mewnfasnach.
92. Yn 65c, amcanestynnir y bydd cyfanswm y refeniw manwerthu yn gostwng £36 miliwn (-0.31%), gyda cholled o £41 miliwn mewn mewnfasnach yn cael ei gwrthbwysu'n rhannol gan gynnydd o £5 miliwn mewn allfasnach.
93. Ar 80c, mae cyfanswm y golled yn cyrraedd £87 miliwn (-0.73%), gyda refeniw mewnfasnach yn gostwng £148 miliwn er gwaethaf cynnydd o £61 miliwn mewn allfasnach.

Gwahaniaethau Sectorol

94. Mae gwahaniaethau sectorol lle mae manwerthwyr allfasnach yn gyffredinol yn elwa o drothwyon MUP uwch, gan fod codiadau mewn prisiau ar alcohol cost isel yn codi refeniw, tra bo busnesau mewnfasnach yn gweld colledion refeniw wrth i MUP gynyddu, a hynny yn ôl pob tebyg oherwydd llai o ddefnydd o alcohol yn gyffredinol ac effeithiau amnewid.
95. Er bod lefelau MUP uwch yn cefnogi amcanion iechyd cyhoeddus, maent yn gysylltiedig â phwysau ariannol ar y sector mewnfasnach, a allai gael goblygiadau economaidd a chyflogaeth ehangach. Penderfynir mai'r pris arfaethedig o 65c yr uned yn hytrach nag yn uwch, a fyddai'n cael effaith fwy amlwg ar ddefnyddwyr a'r diwydiant diodydd alcoholaidd, yw'r opsiwn a ffeirir er mwyn cadw'r manteision iechyd cyhoeddus yn ogystal â'r effaith leiaf bosibl ar y diwydiant wrth gyflwyno strwythur PPU sydd eisoes wedi'i weithredu mewn gweinyddiaethau eraill sy'n darparu cysondeb i'r sector.

Treth a Refeniw

96. Mae'r modelu yn amlinellu'r newid amcangyfrifedig mewn treth alcohol gronnu a refeniw TAW i Lywodraeth y DU dros gyfnod o bum mlynedd (2026–2030), o dan wahanol senarios yr isafbris uned (MUP). Mae'r amcangyfrifon yn cael eu cyflwyno fel newidiadau absoliwt (£ miliwn) a chymharol (%) o'i gymharu â'r senario sylfaenol o MUP o 50c.
97. Rhagwelir y bydd dileu MUP yn cynyddu refeniw'r llywodraeth £22 miliwn (+0.36%), gyda £17 miliwn o werthiannau allfasnach a £5 miliwn o werthiannau mewnfasnach.
98. Mae gostwng MUP i 40c neu 45c hefyd yn arwain at enillion refeniw cymedrol (£9 miliwn a £4 miliwn yn y drefn honno), yn bennaf o gynnydd mewn defnydd allfasnach.
99. Mae codi MUP uwchlaw 50c yn arwain at ostyngiadau cynyddol mewn refeniw treth i'r llywodraeth dros pum mlynedd:

Yn 55c, mae refeniw yn gostwng £22 miliwn (-0.37%).

Yn 65c, mae'r golled yn cynyddu i £109 miliwn (-1.80%).

Yn 80c, mae'r golled amcangyfrifedig yn cyrraedd £374 miliwn (-6.15%).

100. O ran gwahaniaethau sectorol, mae'r sector allfasnach (e.e. archfarchnadoedd, siopau diodydd trwyddedig) yn fwy sensitif i newidiadau MUP, gan gyfrif am y rhan fwyaf o amrywiadau refeniw tra bo'r sector mewnfasnach (e.e. tafarndai, bariau) yn dangos newidiadau llai, gan fod prisiau yn y sector hwn fel arfer yn uwch na'r trothwy MUP ac yn cael eu heffeithio'n llai uniongyrchol.

101. Byddai MUP o 65c yr uned yn cael effaith debyg ar farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol â chynnydd treth o 5.8% i 7.4% yn uwch na chwyddiant. I'r gwrthwyneb, byddai dileu MUP yn gyfan gwbl yn cyfateb i doriad treth mewn termau real o 2% i 2.8%, gan wrthdroi enillion iechyd cyhoeddus o bosibl.

Crynodeb o'r costau

102. Bernir mai MUP o 65c yr uned yw'r opsiwn mwyaf cytbwys ac effeithiol wrth bwysu a mesur buddion iechyd y cyhoedd yn erbyn effeithiau economaidd a chyllidol. Er mai dim ond cyfran fach o alcohol sy'n cael ei werthu o dan 60c yr uned ar hyn o bryd, mae alcohol cost isel yn effeithio'n anghymesur ar yfwyr niweidiol. Mae modelu yn dangos y byddai codi'r MUP i 65c yr uned yn lleihau'r defnydd o alcohol a'r niwed cysylltiedig, tra bo'r effaith ar wariant defnyddwyr yn parhau i fod yn gymedrol—llai na £0.13 yr wythnos ar gyfartaledd. O'i gymharu â throthwyon uwch, mae 65c yr uned yn osgoi'r colledion refeniw mwy difrifol sy'n wynebu'r sector mewnfasnach, a allai weld gostyngiadau sylweddol ar 70c yr uned ac yn uwch. Mae hyn yn gwneud 65c yr uned yn ymyrraeth gymesur sy'n ategu canlyniadau iechyd heb roi pwysau gormodol ar fusnesau lletygarwch.

103. O safbwynt cyllidol, mae 65c yr uned yn taro tir canol pragmataidd. Er ei fod yn gysylltiedig â gostyngiad amcanestynedig o £109 miliwn mewn treth alcohol a refeniw TAW dros bum mlynedd, mae hyn yn sylweddol is na'r golled o £374 miliwn a amcangyfrifir ar gyfer 80c yr uned. Ar yr un pryd, mae manteision iechyd MUP o 65c yr uned yn debyg i gynnydd treth o 5.8% i 7.4% yn uwch na chwyddiant, gan ei wneud yn ddewis amgen costeffeithiol i drethiant. Mae'n cydfynd hefyd â datblygiadau polisi yng ngwledydd eraill y DU, gan gynnig cysondeb i rhanddeiliaid y diwydiant. Yn gyffredinol, 65c yr uned yw'r opsiwn a ffeirir ar gyfer cynnal effeithiolrwydd MUP wrth leihau tarfu ar ddefnyddwyr, busnesau a chyllid cyhoeddus.

104. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio ar y cyd â manwerthwyr, y diwydiant alcohol, cyrff iechyd y cyhoedd, a rhanddeiliaid camddefnyddio sylweddau i ddatblygu deunyddiau ategol ar y cynnydd yn yr isafbris uned cyn ei gyflwyno. Caiff ymgyrch gyfathrebu ei chynnal cyn gweithredu unrhyw gynnydd mewn prisiau i hyrwyddo amcanion y ddeddfwriaeth o ran iechyd y cyhoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn ysgwyddo costau sy'n gysylltiedig â hyrwyddo'r cynnydd mewn prisiau sydd ar ddod drwy ddulliau cyfathrebu wedi'u ddiweddarau a gweithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a byddai'r rhain yn cael eu talu o fewn y cyllidebau presennol.

105. Mae Safonau Masnach Cymru (TSW) wedi gorfodi isafswm prisiau uned ers i MUP gael ei sefydlu ym mis Mawrth 2022 ac mae archwiliadau cydymffurfio o adeiladau trwyddedig wedi'u cwblhau'n llwyddiannus. Dim ond ar gyfer chwe achos yr oedd angen dyroddi Hysbysiadau Cosb Benodedig. Bydd Safonau Masnach yn parhau i orfodi MUP a bydd hyn yn parhau â'r trefniadau presennol, ac ni ragwelir unrhyw gynnydd sylweddol mewn costau gorfodi, o gofio cost isel monitro cydymffurfiaeth a sefydlwyd ers mis Mawrth 2020.

Crynodeb o'r Costau a'r Manteision

Opsiw'n	Amcangyfrif o'r Costau Blynyddol	Amcangyfrif o'r Buddion Blynyddol
Gwneud dim (Mae MUP yn dod i ben ym mis Mawrth 2026)	£0 o gostau gorfodi uniongyrchol neu gyfathrebu. Cost anuniongyrchol: Mae costau'r GIG a chostau cymdeithasol yn cynyddu tua £30–£40 miliwn oherwydd cynnydd mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.	Dim; effaith polisi wedi'i cholli. Amcangyfrifir bod +60 o farwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol a +1,200 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn.
Cadw MUP yn 50c yr uned	Gorfodi: ~£0.2m (parhad Safonau Masnach). Cyfathrebu: -£0.1m	Yn cynnal rhywfaint o leihau niwed ond wedi'i erydu gan chwyddiant. Amcangyfrifir bod £90m mewn arbedion cymdeithasol o'i gymharu â diddymu. Yn atal tua 40 o farwolaethau ac 800 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn.
Cynyddu MUP i 65c yr uned	Gorfodi: -£0.2m. Cyfathrebiadau Llywodraeth Cymru ac ymgysylltu â rhanddeiliaid: -£0.3m Cydymffurfiaeth manwerthwyr: dibwys.	£140m mewn arbedion cymdeithasol (y GIG, cynhyrchiant, troseddu). Tua 80 yn llai o farwolaethau a 1,600 yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn. Yr effaith fwyaf ar grwpiau difreintiedig.

Mae'r ffigurau wedi'u talgrynnu ac yn seiliedig ar fodelu SARG gan ddefnyddio Model Polisi Tybaco ac Alcohol Sheffield v2.6.0.

Mae arbedion i gymdeithasol yn cynnwys gostyngiadau yng nghostau'r GIG, troseddu, a cholledion cynhyrchiant.

Mae costau gorfodi yn dal yn isel oherwydd prosesau Safonau Masnach sefydledig ers 2020.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

106. Bernir mai MUP o 65c yr uned yw'r opsiwn mwyaf cytbwys ac effeithiol i'w weithredu, gan gynnig ymateb cymesur i'r farchnad alcohol yng Nghymru.
107. Er bod y trothwy presennol o 50c yr uned wedi cyfrannu at leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, mae ei werth mewn termau real wedi erydu oherwydd chwyddiant, ac mae dros 93% o alcohol bellach yn cael ei werthu dros 60c yr uned. Byddai codi'r MUP i 65c yr uned i bob pwrpas yn adfer amcan polisi Llywodraeth Cymru i ddylanwadu ar bris y cynhyrchion alcohol rhataf a chryfaf, yn enwedig y rhai sy'n cael eu hyfed gan yfwyr niweidiol, ac yn cynnal yr amcanion a'r canlyniadau iechyd cyhoeddus sy'n gysylltiedig â chyflwyno isafbris uned i ddechrau. Rhagwelir y bydd y lefel o 65c yr uned yn atal 902 o farwolaethau pob achos dros 20 mlynedd, gan gynnwys 628 o farwolaethau alcohol-benodol, ac yn lleihau nifer yr yfwyr peryglus a niweidiol yn sylweddol.
108. Yn economaidd, mae 65c yr uned yn darparu cydbwysedd. Er ei fod yn gysylltiedig â gostyngiad amcanestynedig o £109 miliwn yn refeniw'r llywodraeth dros bum mlynedd, mae hyn yn sylweddol lai na'r golled o £374 miliwn a amcangyfrifir ar gyfer 80c yr uned. Efallai y bydd manwerthwyr allfasnach yn gweld enillion cymedrol, tra byddai busnesau mewnfasnach yn wynebu colledion rheoladwy o'i gymharu â'r effeithiau mwy difrifol a welir ar drothwyon uwch. Dim ond £0.13, neu 0.4%, yw'r gostyngiad cyfartalog mewn gwariant wythnosol i bob yfwr, sy'n dangos bod yr effaith ariannol ar ddefnyddwyr yn gymedrol. Mae hyn yn gwneud 65c yr uned yn ymyrraeth gymesur wedi'i thargedu sy'n osgoi tarfu gormodol ar y sector lletygarwch tra'n cynnal effeithiolrwydd y polisi.
109. Er y gallai cynyddu'r MUP y tu hwnt i 65c yr uned (e.e. i 70, 75, neu 80c yr uned) arwain at ostyngiadau mwy byth mewn niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, byddai'r trothwyon uwch hyn yn gynydd sylweddol y tu hwnt i chwyddiant a gallent effeithio ar hyd at 80% o gynhyrchion alcohol ar y farchnad, gan gynnwys rhai brandiau premiwm.
110. Byddai newid o'r fath yn gwyro'n sylweddol o gwmpas y polisi presennol a gellid ei ystyried yn ymyrraeth sy'n achosi mwy o darfu. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y byddai trothwyon uwch yn cael effaith fwy amlwg ar ddefnyddwyr a'r diwydiant diodydd alcoholaidd, gyda goblygiadau posibl i strategaethau prisio, argaeledd cynnyrch, a dewis defnyddwyr.
111. Yng ngoleuni'r ystyriaethau hyn, 65c yr uned yw'r opsiwn a ffefrir. Mae'n darparu buddion iechyd cyhoeddus ystyrlon, yn cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau anghydraddoldebau iechyd, ac yn cyd-fynd â datblygiadau polisi diweddar yn yr Alban, gan hyrwyddo cysondeb ledled y DU. Mae'n adlewyrchu hefyd ganfyddiadau'r gwerthusiad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2025 ac adborth rhanddeiliaid o ymgynghoriad 2025 ar weithredu MUP a arweiniodd at yr adroddiad Gweithrediad ac Effaith.

112. Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell y lefel hon fel ffordd o gadw manteision MUP tra'n lleihau'r tarfu ar ddiwydiant a defnyddwyr.

Asesiad Cystadleuaeth

Prawf hidlo cystadleuaeth	
Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 10% o gyfran y farchnad?	Oes
C2: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni fwy na 20% o gyfran y farchnad?	Oes
C3: Yn y farchnad(marchnadoedd) y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf o leiaf 50% o gyfran y farchnad?	Oes
C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio ar rai cwmnïau yn fwy o lawer nag eraill?	Na fyddai
C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y cwmnïau?	Nac ydyw
C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau sefydlu busnes uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau rheolaidd uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar gyflenwyr, sy'n gostau nad oes rhaid i gyflenwyr presennol eu talu?	Na fyddai
C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector?	Nac ydyw
C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, amrywiaeth neu leoliad eu cynhyrchion?	Byddai

113. Mae isafbris uned (MUP) wedi bod ar waith ers pum mlynedd, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod ei barhad neu unrhyw addasiad i brisiau yn annhebygol o gael effaith sylweddol ar gystadleuaeth. Er bod y farchnad yn grynodedig gyda rhai cwmnïau yn dal mwy na 10% a 20% o gyfran o'r farchnad a'r tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd yn fwy na 50%, nid yw'r rheoliad yn gosod costau anghymesur ar gwmnïau penodol, nac yn newid strwythur y farchnad nac yn creu rhwystrau i newydd-ddyfodiaid. Ar ben hynny, nid yw newid technolegol cyflym yn nodwedd o'r sector, ac mae costau parhaus yn parhau i fod yn gyson ar draws cyflenwyr. Er bod MUP yn cyfyngu ar hyblygrwydd priso, mae ei

weithrediad hirsefydlog heb effeithiau cystadleuol andwyol yn ategu'r casgliad na fydd newidiadau yn y dyfodol yn ystumio cystadleuaeth yn sylweddol.

Adolygu ar ôl gweithredu

114. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn monitro effeithiolrwydd y trothwy wedi'i uwchraddio hwn, gan ystyried hefyd ystod o dystiolaeth, gan gynnwys lefelau cydymffurfio, patrymau yfed alcohol ymhlith yfwyr peryglus a niweidiol, gwerthu alcohol a data prisio, a dangosyddion o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol fel rhan o'u gwaith monitro parhaus ar y ddeddfwriaeth. Bydd y monitro parhaus yn cael ei gefnogi gan gydweithwyr yn y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi ac yn lechyd Cyhoeddus Cymru.
115. Yn dilyn argymhellion y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer [Isafbris uned am alcohol yng Nghymru](#), os bydd y ddeddfwriaeth yn mynd rhagddi, bydd monitro a gwerthuso isafbris uned yn y dyfodol yn parhau i ystyried y cyd-destun ehangach y mae'r polisi yn gweithredu o'i fewn, gan gynnwys effaith y polisi ar blant a phobl ifanc a theuluoedd.
116. Derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion y Pwyllgor lechyd a Gofal Cymdeithasol, yn enwedig gwerthusiadau pellach os bydd isafbisiau uned yn parhau ar y canlynol:
- Fel rhan o unrhyw bolisi isafbris uned parhaus, dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro a gwerthuso ei weithrediad a'i effaith. Dylai hyn fod yn gryfach, ac yn fwy o ran graddfa na'r gwerthusiad blaenorol a dylai gynnwys dadansoddiad meintiol hydredol o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.
 - Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith monitro a gwerthuso isafbris uned am alcohol yn y dyfodol yn ystyried effaith y polisi ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel.
 - Dylai unrhyw werthusiad o isafbris uned yn y dyfodol ystyried effaith y polisi ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys yfed dan oed ac effaith alcohol ar fywydau plant a phobl ifanc mewn aelwydydd lle y mae un neu ragor o'r rhieni neu'r gwarcheidwaid yn ddibynnol ar alcohol.
117. Darparodd adroddiad Modelu Sheffield amcanestyniadau ar effaith bosibl uwchraddio trothwy'r Isafbris am Alcohol (MPA) ac fe ymchwiliodd i oblygiadau gwahanol fecanweithiau uwchraddio y tu hwnt i 2025. Mae copi o'i ganfyddiadau ar gael yn yr adroddiad a gyhoeddwyd a bydd yn sail i ystyriaethau Llywodraeth Cymru i lywio penderfyniadau polisi yn y dyfodol.
118. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn asesu effaith hirdymor gwahanol ddulliau o uwchraddio'r Isafbris Uned yn seiliedig ar y modelau a nodir yn Adroddiad Sheffield:
- Ei bennu yn 65c yr uned am gyfnod amhenodol,
 - Ei gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant RPI,
 - Ei gynyddu bob 5 mlynedd yn seiliedig ar chwyddiant RPI dros y 5 mlynedd

flaenorol,

- Ei gynyddu'n flynyddol yn unol â thwf enillion cyfartalog,
- Ei gynyddu bob 5 mlynedd yn seiliedig ar dwf enillion cyfartalog dros y 5 mlynedd flaenorol.

119. Mae penderfyniadau ar uwchraddio'r isafbris uned yng Nghymru yn hanfodol i gynnal effaith y polisi ar iechyd y cyhoedd. Er bod sawl gwlad wedi rhoi isafbris ar waith, dim ond yr Alban a rhai o daleithiau Canada sydd wedi cynyddu eu MUP ers ei rhoi ar waith. Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth yr Alban sydd hefyd yn ystyried goblygiadau uwchraddio